

Derbyn i Ysgolion Gwybodaeth i Rieni 2017-2018

CYHOEDDWDYD YN HYDREF 2016



Cynlluniwyd y llyfryn hwn i roi gwybodaeth gyffredinol i rieni ynglyn ag Ysgolion Meithrin, Cynradd, Uwchradd ac Arbennig Sir Gaerfyrddin ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017-2018 ac mae'n gywir wrth fynd i'r wasg. Gofynnir ichi gofio felly y gall gwybodaeth fel nifer y disgyblion yn yr ysgol newid rhwng dyddiad cyhoeddi'r ddogfen hon a'r dyddiad y mae'r disgybl yn cychwyn yn yr ysgol. Mae'r un mor bosib y bydd materion deddfwriaethol, polisi neu ad-drefnu ysgolion all effeithio ar yr wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen hon.

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn fformat arall, cysylltwch â'r Uned Derbyniadau Ysgolion yn yr Adran Addysg a Phlant drwy ffonio (01267) 246449.

Mae'r ddogfen yn ar gael ar ein gwefan.



EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru



100% wedi'i ailgylchu
Cyhoeddwyd ar bapur mae 100% ohono wedi'i ailgylchu

Cyflwyniad

Mae'r Awdurdod yn deall bod dewis ysgol i'w plentyn yn benderfyniad pwysig iawn i rieni a gofalgwyr.

Bydd y llyfryn hwn yn eich cynorthwyo â'r broses hon drwy ddarparu gwybodaeth gyffredinol ynghylch ysgolion yn Sir Gaerfyrddin, sut a phryd y mae angen ichi gyflwyno cais am le mewn ysgol, y broses o roi lle i ddisgyblion ynghyd ag amryw o bolisiau fel cludiant ysgol, a all fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau.

Argymhellir yn bendant eich bod yn cysylltu â'r ysgolion yn eich ardal ac yn ymweld â nhw, cyn gwneud eich dewis terfynol, i drafod eich amgylchiadau unigol a chael gwybod pa ddarpariaeth sydd ar gael yno. Mae'n bosibl hefyd y bydd gwybodaeth ar wefan yr ysgolion unigol.

Sylwch nad oes sicrwydd y derbynnir plentyn i ysgol. Mae terfynau caeth ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i ysgolion unigol. Os derbynnir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd, yn gyfreithiol, mae'n rhaid prosesu'r ceisiadau a ddaeth i law erbyn y dyddiad cau yn gyntaf, gan ddefnyddio'r meini prawf gor-alw, y nodir eu manylion yn y llyfryn hwn, i bennu'r flaenoriaeth o ran rhoi'r lleoedd sydd ar gael. I osgoi siom ac i gael y siawns fwyaf o gael lle yn eich dewis ysgol, gofalgwch eich bod yn cyflwyno'ch cais erbyn y dyddiad cau a bennwyd.

Rydym yn ffodus fod gennym lawer o ysgolion gwych a staff o'r radd flaenaf yn yr Awdurdod ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu eich mab neu eich merch i un o'n hysgolion ac yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn eu hastudiaethau.



Rob Sully - Cyfarwyddwr - Yr Adran Addysg a Phlant

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| A. Derbyn i Ysgolion Sir Gaerfyrddin | 5 |
| 1. Awdurdodau Derbyn | 5 |
| 2. Pryd i gyflwyno cais - yr Amserlen Derbyn i Ysgolion | 7 |
| 3. Oedran dechrau ysgol - Grwpiau Blwyddyn/Oedrannau | 8 |
| 4. Symud o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd | 10 |
| 5. Dewis ysgol | 12 |
| 6. Derbyn i ysgolion ar adegau eraill o'r flwyddyn | 15 |
| 7. Sut mae gwneud cais - cwblhau'r ffurflen gais..... | 16 |
| 8. Rhoi lleoedd - y meini prawf gor-alw | 19 |
| 9. Rhoi gwybod am Dderbyn i Ysgol | 22 |
| 10. Apeliadau Derbyn | 23 |
| 11. Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr | 25 |
| B. Gwybodaeth ar Addysg a Dysgu | 33 |
| 1. Tymhorau a gwyliau'r ysgolion..... | 33 |
| 2. Y Cwricwlwm Ysgol | 34 |
| 3. Dysgu'r Gymraeg a'r Saesneg mewn Ysgolion | 37 |
| 4. Arholiadau Cyhoeddus..... | 42 |
| 5. Gwahardd Disgyblion | 42 |
| 6. Cost Gweithgareddau Ysgol | 42 |
| 7. Dyddiad gadael ysgol | 42 |
| 8. Cael golwg ar ddogfennau | 43 |
| 9. Cyrff Llywodraethu Ysgolion | 43 |
| C. Gwasanaethau i Disgyblion..... | 44 |
| 1. Diwallu Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig | 44 |
| 2. Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol..... | 47 |
| 3. Prydau Ysgol /Grant Gwisg Ysgol..... | 54 |
| 4. Lwfans Cynhaliaeth Addysg | 59 |
| 5. Lles Addysg..... | 59 |
| 6. Cronfeydd Ymddiriedolaethau | 59 |
| 7. Y Gwasanaeth Gyrfaoedd..... | 60 |
| 8. Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | 61 |
| 9. Ysgolion Iach | 62 |
| 10. Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd- eang | 63 |
| CH. Crynodeb ysgolion a disgyblion ysgolion Sir Gaerfyrddin | 64 |
| D. Map o ysgolion..... | 65 |
| F. Rhestr o Ysgolion | 67 |

Ffeithiau Allweddol

- Nid oes sicrwydd awtomatig y caiff disgybl ei dderbyn i ysgol.
- I gael lle i'ch plentyn mewn ysgol, mae'n rhaid ichi gyflwyno cais i awdurdod derbyn.
- Hyn a hyn o ddisgyblion y gellir eu derbyn i ysgol mewn blwyddyn. Ar ôl cyrraedd y terfyn, ni chaniateir derbyn rhagor o ddisgyblion.
- Gwnewch gais erbyn y dyddiadau cau – gweler yr Amserlen Derbyn i ysgolion.
- Os oes gan eich plentyn anghenion dysgu ychwanegol fe'ch cynghorir i gysylltu â Phennaeth yr ysgol neu un o Swyddogion Cynnydd Disgyblion yr Adran Addysg a Phlant.
- Os byddwch yn cyflwyno cais ar ôl y dyddiadau hyn caiff ei drin fel cais hwyr a bydd yn cael ei ystyried ar ôl y rhai a dderbyniwyd cyn y dyddiad cau. Bydd hyn yn lleihau'r siawns y caiff eich plentyn le yn eich dewis ysgol.
- Os cynigir lle i'ch plentyn, mae'n rhaid ichi lofnodi'r ffurflen i dderbyn y cynnig a'i dychwelyd i'r awdurdod derbyn erbyn y dyddiad a bennwyd neu bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl a chynigir y lle i ddisgybl arall.

1. Awdurdodau Derbyn

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol cysylltwch â'r Awdurdodau Derbyn perthnasol;

Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn Sir Gaerfyrddin

Yr Uned Derbyniadau Ysgolion, Yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB.

Rhif Ffôn: **01267 246449** Rhif ffacs: **01267 246003**

E-bost: **derbyniadau@sirgar.gov.uk**

Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr yn Sir Gaerfyrddin

Ar gyfer ymholiadau ynghylch Ysgolion Eglwys Gwirfoddol a Gynorthwyr cysylltwch â'r canlynol:

Ysgolion yr Eglwys yng Nghymru

Y Canon Bryan Witt, Y Cyfarwyddwr
Addysg Esgobaethol, Y Ficerdy Newydd,
Llanddarog, Caerfyrddin, SA32 8PA

Rhif Ffôn: **01267 275504**

E-bost: **heather.witt@virgin.net**

Ysgolion Catholig

Mr Patrick Mansfield, (Dros Dro)
Y Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol,
Swyddfa Addysg yr Esgobaeth,
Y Swyddfeydd, 27 Stryd y Cwfaint,
Greenhill, Abertawe SA1 2BX.

Rhif Ffôn: **01792 652757**

Rhif Ffacs: **01792 458641**

E-bost: **education@menevia.org**

Awdurdodau Addysg Lleol cyfagos

Y canlynol yw enwau, cyfeiriadau a rhifau ffôn yr awdurdodau addysg lleol cyfagos:

CEREDIGION

Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a
Phartneriaethau
Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol,
Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth. SY23 3UE.

Rhif Ffôn: **01970 633656**

ABERTAWE

Y Cyfarwyddwr - Pobl,
Dinas a Sir Abertawe, Neuadd y Ddinas,
Abertawe, SA1 4PE.

Rhif Ffôn: **01792 637521**

SIR BENFRO

Y Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion
Cyngor Sir Penfro,
Neuadd y Sir, Hwlfordd. SA61 1TP.

Rhif Ffôn: **01437 764551**

POWYS

Pennaeth y Gwasanaeth Ysgolion, Cyngor Sir
Powys, Powys County Hall, Spa Road East,
Llandrindod. LD1 5LG.

Rhif Ffôn: **01597 826422**

CASTELL-NEDD PORT TALBOT

Y Cyfarwyddwr Addysg,
Hamdden a Dysgu Gydol Oes,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port
Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot
SA13 1PJ.

Rhif Ffôn: **01639 686868**

2. Pryd i wneud cais

| Amserlen Cyflwyno Ceisiadau Derbyni i Ysgolion - Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir | | | | | | |
|---|---|-----------------------------------|---|-------------------|----------------------------|--|
| Y Ddarpariaeth | Dyddiad geni | Dechrau yn yr ysgol | Dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais | Y Dyddiad Hysbysu | Y Dyddiad cau o ran Apelio | |
| Addysg Plant 3 oed Meithrin (2 dymor yn unig) 3-11 (Rhan amser) | 1af Medi 2014 hyd at 31ain Awst, 2015 | Ionawr, Ebrill neu Fedi 2018 | 31ain Ionawr, 2017 | Hydref 2017 | Dim hawl i apel | |
| Addysg Plant 4 oed 4-11 (Llawr amser) | 1af Medi, 2013 hyd at 31ain Awst, 2014 | Medi 2017, Ionawr neu Ebrill 2018 | 31ain Ionawr 2017 | 18eg Ebrill, 2017 | 30ain Mai, 2017 | |
| Addysg Uwchradd (Symud o'r Cynradd i'r Uwchradd) | 1af Medi, 2005 hyd at 31ain Awst, 2006 | Medi 2017 | 16eg Rhagfyr, 2016 | 1af Mawrth, 2017 | 11eg Ebrill, 2017 | |

Ceisiadau Hwyr

Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried nes bod y ceisiadau a ddaeth i law cyn y dyddiad cau wedi cael lleoedd.

3. Faint Fydd Oed Plant Yn Dechrau'r Ysgol?

Y Blynyddoedd Cynnar - Darpariaeth i blant 3 oed

Beth yw'r Blynyddoedd Cynnar?

Mae Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed a bydd yn rhaid gwneud cais am le mewn ysgol h.y ar gyfer categorïau (i) a (ii) isod, i'r Awdurdod Derbyn erbyn y dyddiad cau - gweler yr Amserlen Cyflwyno Cais.

Ble mae addysg ran amser i'w chael?

Mae gan bob plentyn 3 oed yr hawl i gael 10 awr yr wythnos am ddim, mewn lleoliad cofrestredig, trwy'r Grŵp Hawliau Bore Oes a hynny o'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Mae'r Cyngor yn caniatáu i ddarparwyr nas cynhelir ddefnyddio adeiladau ysgolion lle bo hynny'n ymarferol.

Mae sawl math o ddarpariaeth:-

- (i) Ysgol Feithrin - Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin yn y Sir.
- (ii) Dosbarthiadau Meithrin/Blynyddoedd Cynnar mewn Ysgolion Cynradd neu Ysgolion Babanod
- (iii) Darpariaeth gan y sector nas cynhelir sy'n bartneriaid yn y Grŵp Hawliau Bore Oes, e.e. Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru (CDCC), Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) a darparwyr preifat. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn adran Y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin yn y ddogfen hon.

Pryd y gall plentyn ddechrau addysg ran amser?

Fel rheol, derbynir plant i ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar mewn ysgolion sy'n ei chynnig, ar sail ran amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.

| 3ydd Pen-blwydd y Plentyn | Y Tymor Derbyn |
|---------------------------|-----------------|
| 1 Medi – 31 Rhagfyr | Tymor y Gwanwyn |
| 1 Ionawr – 31 Mawrth | Tymor yr Haf |
| 1 Ebrill – 31 Awst | Tymor yr Hydref |

Nid oes gan rieni hawl i apelio os na chynigir lle i'w plentyn yn eu dewis lleoliad blynyddoedd cynnar.

Ni fydd gan blentyn y cynigir lle rhan amser iddo/iddi mewn ysgol, hawl awtomatig i barhau i dderbyn addysg amser llawn. Mae'n rhaid cyflwyno cais ffurfiol i'r Awdurdod Derbyn cywir - gweler yr amserlen derbyn.

Os derbynnir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd, bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu'r ceisiadau yn unol â'r meini prawf gor-alw y nodir eu manylion yn y ddogfen hon.

Addysg Amser Llawn - Plant 4 a 5 oed

Lle nad oes darpariaeth blynyddoedd cynnar mewn lleoliad wedi'i gynnal, bydd plant, os derbynnir eu cais, yn cael eu derbyn i addysg amser llawn ar yr adegau canlynol:-

| 4ydd Pen-blwydd y Plentyn | Y Tymor Derbyn |
|----------------------------------|-----------------------|
| 1 Medi - 31 Rhagfyr | Tymor yr Hydref |
| 1 Ionawr - 31 Mawrth | Tymor y Gwanwyn |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Tymor yr Haf |

Dylid cyflwyno ceisiadau derbyn i'r Cyngor erbyn y dyddiad cau - gweler yr amserlen cyflwyno ceisiadau derbyn. Gall rhieni ohirio dyddiad derbyn plentyn i'r ysgol tan ddechrau'r tymor sy'n dilyn pumed pen-blwydd y plentyn.

Yn unol â'r gyfraith mae'n rhaid i rieni drefnu bod eu plant yn derbyn addysg amser llawn ar ddechrau'r tymhorau canlynol:-

| 5ed Pen-blwydd y Plentyn | Mae'n rhaid, yn ôl y gyfraith, i'r plentyn ddechrau ysgol |
|---------------------------------|--|
| 1 Medi – 31 Rhagfyr | Tymor y Gwanwyn |
| 1 Ionawr – 31 Mawrth | Tymor yr Haf |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Tymor yr Hydref |

Derbyn i Ysgol Iau o Ysgol Fabanod

Pan fydd plant mewn ysgol fabanod eisiau dechrau mewn Ysgol Iau yn y mis Medi yn dilyn eu seithfed pen-blwydd (h.y. byddant wedi cyrraedd 7 oed ar 31 Awst neu cyn hynny) mae'n rhaid i'r rhiant/gofalwr gyflwyno cais i'r Cyngor.

Nid oes trefniadau trosglwyddo awtomatig na hawl awtomatig i symud i'r Ysgol Iau o'r Ysgol Fabanod.

Dylid cyflwyno ceisiadau derbyn i'r Cyngor erbyn 31 Ionawr yn y flwyddyn cyn i'r disgybl ddechrau yn yr ysgol iau. Os derbynnir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd, bydd y Cyngor yn blaenoriaethu'r ceisiadau yn unol â'r meini prawf gor-alw y nodir eu manylion yn y ddogfen hon.

4. Derbyn i Ysgolion Uwchradd gan Gynnwys y Chweched Dosbarth

Feithiau Allweddol

- Ni fydd disgyblion yn trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol uwchradd o'r ysgol gynradd.
- Mae'n rhaid, yn ôl y gyfraith, i chi gyflwyno cais i'r Awdurdod Derbyn am le mewn ysgol.
- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw 16eg Rhagfyr, 2016.
- Ni roddir ystyriaeth i'r ysgol gynradd y mae'r disgybl yn ei mynychu. Cyfeiriad y cartref yw'r ystyriaeth wrth dderbyn i ysgolion uwchradd.
- Nid yw'n bosibl i unrhyw unigolyn na chorff roi sicrwydd ymlaen llaw y bydd lle ar gael i blentyn mewn ysgol. Dylid diystyru sylwadau neu addewidion o'r fath.
- Bydd angen ichi gael llythyr gan yr Awdurdod Derbyn yn rhoi gwybod ichi a yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus neu wedi'i wrthod.
- Ni chaiff plentyn ddechrau ysgol uwchradd nes bod y rhiant/gwarcheidwad wedi cysylltu â'r Awdurdod Derbyn i gadarnhau'r lle.
- Darllenwch y polisi Trafnidiaeth i'r ysgol cyn gwneud eich dewis terfynol o ysgol.

Mae'n rhaid i blant ysgolion cynradd ddechrau'r ysgol uwchradd yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 11 oed.

Fel rhan o'r broses o wneud cais, bydd rhieni plant yn eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd yn derbyn pecyn gwybodaeth a ffurflen gais oddi wrth y Cyngor.

Mae'n bwysig eich bod yn gwneud cais arlein erbyn y dyddiad cau gan mai'r ceisiadau hyn fydd yn cael yr ystyriaeth gyntaf. Ni fydd ceisiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried nes y dyfernir y ceisiadau a ddaeth i law cyn y dyddiad cau.

Er nad oes unrhyw sicrwydd y rhoddir lle mewn ysgol, **mae'r meini prawf derbyn yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch ddynodedig yr ysgol uwchradd. Felly, nid yw'r ysgol gynradd y mae'r disgybl yn ei mynychu yn ffactor a ystyrir.**

Dilynwch y canllawiau a ddarparwyd, cwblhewch y ffurflen arlein unol â hynny a darllenwch y rhan o'r llyfryn hwn sy'n ymwneud â dewis y rhieni a chludiant i'r ysgol er mwyn sicrhau eich bod yn deall eich dyletswydd o dan yr amgylchiadau hyn.

Does dim trefniant awtomatig i drosglwyddo a dim hawl awtomatig i symud o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd

Mae'n rhaid cwblhau'r ffurflenni'n a'u cyflwyno erbyn 16eg Rhagfyr, 2016. Os na fyddwch yn cyflwyno y ffurflen erbyn y dyddiad cau bydd llai o siawns y cewch le yn eich dewis ysgol a llai o siawns y cewch gludiant am ddim i'r ysgol. Ein bwriad yw anfon y llythyrau penderfyniadau ynghylch y ceisiadau hyn erbyn 1 Mawrth, 2017.

Dylai rhieni sy'n dymuno i'w plentyn gael ei d(d)erbyn i ysgol uwchradd ar adeg gwahanol i'r amser derbyn arferol i flwyddyn 7 ysgol uwchradd, gysylltu â'r ysgol a thrafod y mater yn y lle cyntaf gyda Phennaeth yr ysgol a fydd hefyd yn gallu rhoi cyngor ar wneud cais am le. Gellir gofyn hefyd am gyngor gan staff yr Uned Derbyniadau.

Derbyn i'r Chweched Dosbarth

Dylid trafod trefniadau derbyn i'r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion Cymunedol gyda'r ysgol unigol cyn cyflwyno cais am le.

5. Dewis Ysgol - Dalgylchoedd

Ffeithiau Allweddol

- Mae pob ysgol yn gwasanaethu dalgylch dynodedig.
- Os yw'r disgybl yn byw yn nalgylch dynodedig ysgol, mae gwell siawns y bydd y cais am le yn yr ysgol honno yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y bydd yn cael lle.
- Mae gan ddisgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, yn amodol ar y meini prawf ynghylch oed a phellter teithio, well siawns o gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol - gweler y polisi cludiant.
- Gall rhieni fynegi eu bod yn dewis ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig y dalgylch. Os dilynir y gweithdrefnau cywir ac os nad yw nifer y disgyblion yn fwy na'r nifer y caniateir i'r ysgol ei derbyn, bydd lle yn cael ei roi.
- Lle bydd rhieni'n dewis ysgol nad yw'n ysgol agosaf neu'n ysgol y dalgylch, eu cyfrifoldeb nhw fydd cludo'r plentyn i'r ysgol ac yn ôl.
- Pan fydd disgybl yn symud o'r cynradd i'r ysgol uwchradd ystyrir a yw'n gymwys i gael ei (d)derbyn i'r ysgol honno ac i dderbyn cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol hefyd ar **sail cyfeiriad y cartref yn hytrach na'r ysgol gynradd a fynychwyd.**

Ysgol Leol / Ysgol Ddalgylch

Mae'r Cyngor wedi clustnodi ardal ddaearyddol ddynodedig a wasanaethir gan yr ysgol a gelwir yr ardal honno'n ddalgylch yr ysgol. *Mae'r manylion ynghylch dalgylch ysgol ar gael yn yr ysgol, ar wefan y Cyngor Sir (Lleol-i) neu maent ar gael oddi wrth yr Awdurdod Derbyn perthnasol.*

Er nad yw byw yn nalgylch ysgol yn rhoi sicrwydd y derbynnir disgybl i'r ysgol mae'n ffactor pwysig gan y bydd yn golygu y bydd cais yn cael blaenoriaeth dros geisiadau gan unigolion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch. Mae'n bwysig hefyd am ei fod yn un o'r meini prawf allweddol wrth asesu a yw disgybl yn gymwys i gael cymorth o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol. Nodir manylion y polisi ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol yn y ddogfen hon.

Cyn ichi gyflwyno cais am dderbyn i ysgol mae'r Cyngor yn argymhell yn

bendant eich bod yn cysylltu, yn trafod ac yn ymweld â'ch ysgol leol er mwyn cael gwybod pa gyfleusterau a chyfleoedd a gynigir yno.

Dewis y Rhieni

Fel y nodwyd, mae'r Cyngor yn awgrymu mai'r pwynt cyswllt cyntaf wrth ddewis ysgol fyddai ysgol leol ddynodedig y dalgylch.

Yn ymarferol, mae'r mwyafrif o rieni yn anfon eu plentyn i'r ysgol sydd yn y dalgylch lleol, ond er hynny mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn dewis ysgolion gwahanol. Os ydych yn dymuno gwneud hynny argymhellir eich bod yn cysylltu â'r ysgol rydych yn meddwl amdani cyn gwneud dewis terfynol.

Os byddwch yn dewis ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig eich dalgylch nac yn ysgol agosaf at eich cartref, yna mae rhai materion ymarferol y bydd angen ichi eu hystyried cyn gwneud penderfyniad.

Yn gyntaf, os nad yw plentyn yn mynychu ysgol y dalgylch na'r ysgol agosaf at gyfeiriad y cartref a bod y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ddewis y rhieni, yna mae'r cyfrifoldeb yn llwyr ar y rhieni / gofalgwyr i gludo'r disgybl i'r ysgol ac oddi yno ac i dalu cost y cludiant hwnnw. Dywed rhieni fod hynny'n gallu bod yn broblem arbennig os bydd brawd neu chwaer iau nad yw'n cael ei (d)derbyn i'r un ysgol. Doeth felly yw ystyried a chynllunio ar gyfer y posibilrwydd hwn cyn gwneud cais am le.

Mae'r ail fater yn ymwneud â'r adeg pan fydd disgyblion yn trosglwyddo i'r sector uwchradd o'r ysgol gynradd. **Mae cael lle mewn ysgol uwchradd yn seiliedig ar gyfeiriad y cartref ac yw hwnnw yn dalgylch yr ysgol uwchradd. Nid yw'n seiliedig ar ysgol gynradd y disgybl.** Felly, pan fydd plant yn ddisgyblion mewn ysgol gynradd nad yw'n ysgol ddynodedig y dalgylch mae'n fwy tebygol na fyddant yn cael eu derbyn i'r un ysgol uwchradd â'u cyfoedion a'u cyddisgyblion.

Ni fydd y materion hyn yn berthnasol i lawer, ond gan eu bod wedi creu anawsterau i rieni yn y gorffennol argymhellir eich bod yn eu hystyried ac yn cynllunio ar eu cyfer cyn gwneud eich dewis terfynol ynghylch ysgol gynradd.

Os dewisir ysgol benodol yna bydd yr Awdurdod Derbyn a'r llywodraethwyr ysgol yn cydymffurfio'n gyfreithlon â'r dewis a fynegir. Yn yr un modd â phob cais, os dewisir ysgol benodol yna bydd angen ystyried ac asesu'r dewis hwnnw fel rhan o'r broses dderbyn er mwyn sicrhau nad yw'r Awdurdod yn mynd heibio'r terfyn o ran nifer y disgyblion a dderbynnir i'r ysgol honno ar gyfer y grŵp blwyddyn perthnasol.

Y term a ddefnyddir yn y ddogfen hon wrth gyfeirio at y terfyn ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i grŵp blwyddyn penodol mewn ysgol yw'r nifer derbyn (ND). Nodir y nifer derbyn (ND) ar gyfer pob ysgol yn y rhestr o ysgolion sy'n rhan o'r llyfryn hwn.

Dewis y Rhieni - Disgyblion a Waharddwyd Ddwywaith

Os yw disgybl wedi cael ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor yn barod, gall rhieni ddatgan eu dewis o ran yr ysgol y maen nhw'n dymuno i'w plentyn gael ei addysg ynddi ond nid oes rhaid i'r Awdurdod Derbyn gydymffurfio â'r dewis hwnnw am gyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad y gwaharddiad diweddaraf.

Nid yw hyn yn berthnasol i fyfyrwyr a chanddynt ddatganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), plant sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol, plant a gafodd le yn ôl yn yr ysgol, neu a fyddai wedi cael lle yn ôl pe bai wedi bod yn ymarferol gwneud hynny, neu blant sy'n derbyn gofal lle cyflwynir cais derbyn gan y rhiant corfforaethol.

Diwallu Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig

Mae gan rai plant anghenion addysgol ychwanegol neu arbennig a/neu anabledd lle mae'n rhaid sicrhau eu bod yn cael darpariaeth ychwanegol er mwyn iddynt allu dysgu'n effeithiol. Yn yr achosion hyn trowch at yr adran Anghenion Addysgol Ychwanegol yn y llyfryn hwn.

Addysg yn y Cartref

Gall rhieni ddewis hefyd addysgu eu plant gartref. Yr enw ar hyn yw Addysg Ddewisol yn y Cartref. Mae'r penderfyniad i addysgu gartref yn fater y dylid meddwl yn ofalus amdano, gan ei fod yn gryn dasg o ran ymrwymiad, amser a chost.

Os ydych yn ystyried y dewis hwn awgrymir eich bod yn cysylltu â'r awdurdod lleol ac yn gofyn am arweiniad gan y Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref drwy ffonio 01267 246727.

Mathau o Ysgolion

Ystyrir bod pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn ysgol gydaddysgol yn yr ystyr ei bod yn darparu ar gyfer bechgyn a merched ac, oni nodir yn wahanol, ysgolion dydd ydynt ac nid ysgolion preswyl.

Oni nodir yn wahanol, ystyrir bod yr ysgolion uwchradd yn ysgolion cyfun.

Yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, 30 o ddisgyblion yw'r mwyafswm a ganiateir mewn dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2

6. Derbyn i Ysgolion ar adegau eraill o'r flwyddyn

Bydd rhieni/gofalwyr sydd am gyflwyno cais am le i'w plentyn mewn ysgol yn ystod y flwyddyn academiaidd yn gorfod llenwi a chyflwyno ffurflen gais i'r arlein Awdurdod Derbyn.

Ystyrir ceisiadau arlein pan fyddant yn codi yn unol â'r polisiâu a'r gweithdrefnau derbyn a ddisgrifir yn y ddogfen hon gan gynnwys y meini prawf gor-alw os derbynnir mwy o geisiadau na'r nifer derbyn.

Newid Ysgolion - Trosglwyddo yn y Flwyddyn Ysgol

Mae newid ysgol yn fater i'w ystyried yn ddifrifol a dylid ei drafod yn llawn â Phennaeth ysgol bresennol eich plentyn yn y lle cyntaf. Bydd yr Adran Addysg a Phlant yn darparu cyngor hefyd os bydd angen. Os ydych yn dal i ddymuno trosglwyddo eich plentyn o un ysgol i un arall dylech gyflwyno cais ar-lein i'r Adain Derbyn i Ysgolion yn yr Adran Addysg a Phlant. Bydd yr Adran yn ystyried caniatáu ichi newid ysgol yn unol â'r meini prawf ar gyfer derbyn disgyblion.

Grwpiau Blwyddyn Eraill

Bydd ceisiadau am dderbyn disgyblion i grwpiau blwyddyn gwahanol i'r rhai arferol, ar sail dyddiad geni'r disgybl, yn cael eu hystyried yn unigol gan ddefnyddio'r meini prawf gor-alw a nodir yn y llyfryn hwn lle bo hynny'n berthnasol.

Mae proses benodol ar gyfer ystyried y ceisiadau hyn a fydd yn cynnwys asesiad gan yr Awdurdod Lleol o amgylchiadau unigol pob achos. Nid yw hon yn broses awtomatig.

7. Sut mae gwneud cais

Ffeithiau Allweddol

Wedi i'r rhiant/gofalwr/rhiant corfforaethol benderfynu i ba ysgol y maent am anfon eu plentyn/plant mae'n rhaid iddynt gyflwyno cais i'r Awdurdod Derbyn priodol. Mae angen riant/gofalwr restru'r dewis o ysgol yn ôl y dewis 1af, yr 2il ddewis a'r 3ydd dewis.

Ar gyfer ysgolion Cymunedol ac ysgolion Gwirfoddol a Reolir gellir gwneud hyn:-

- yn uniongyrchol ar-lein trwy ddefnyddio gwefan yr Awdurdod Lleol sef www.sirgar.llyw.cymru;
- trwy gysylltu â'r ysgol; neu
- Canolfannau Gwasanathau Cwsmeriad

Ni chaiff unrhyw Ysgol Gymunedol nac Ysgol Wirfoddol a Reolir awdurdodi derbyn disgybl. Maen't yn gallu helpu â'r ffurflen gais yn unig, gan wneud apwyntiad.

Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

- Cyflwyno cais yn uniongyrchol i'r ysgol
- Cyflwyno cais ar-lein trwy wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Llenwi'r ffurflen gais

Cyfrifoldeb Rhiant

Lle mae cyfrifoldeb rhiant wedi'i nodi, mae'n rhaid ymgynghori a chael sêl bendith y naill ochr a'r llall cyn gwneud cais.

Bydd y rhieni yn gallu gwneud cais ar-lein am le mewn uchafswm o dair ysgol.

Bydd rhaid i'r rhieni sy'n dewis 2 neu 3 ysgol eu rhestru yn ôl blaenoriaeth (h.y. dewis 1af, 2il ddewis a 3ydd dewis) (noder: ar hyn o bryd ni nodir dewis yn ôl blaenoriaeth).

Yn y man cyntaf, bydd pob cais yn cael yr un ystyriaeth, ond os bydd lle'n cael ei gynnig yn yr ysgol sy'n ddewis 1af (neu'n unig ddewis), ni fydd lleoedd yn cael eu cynnig yn yr ysgol sy'n 2il ddewis neu'n 3ydd dewis.

Cyfeiriad y Cartref

Ystyrir cyfeiriad cartref disgybl i fod yn eiddo preswyl sy'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa'r disgybl, preswylfa neu adeilad preswyl heb gynnwys unrhyw dir sy'n gysylltiedig â hi/ef. Mae'r dalgylch yn seiliedig ar leoliad y tŷ lle mae'r disgybl yn byw ac nid unrhyw dir sydd o amgylch y tŷ hwnnw a naill ai:-

- Ym mherchnogaeth rhiant/rhieni y plentyn neu'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol a diffiniedig dros y plentyn; neu
- Wedi'i brydlesu neu ei rentu gan riant/rhieni y plentyn neu gan y person sydd â chyfrifoldeb rhiant yn unol â chytundeb rhent ysgrifenedig, ac wedi'i lofnodi gan y landlord a'r tenant, am gyfnod o chwe mis neu ragor.

Prawf o'ch Cyfeiriad

Mae'r Awdurdod yn cadw'r hawl i ofyn am prawf o gyfeiriad ar yr adeg y cynigir lle i'r plentyn.

Er mwyn i'r cais gael ei ystyried fel rhan o'r rownd dderbyn arferol bydd rhaid ichi ddarparu prawf eich bod yn byw yn y cyfeiriad a nodir ar y ffurflen gais erbyn y dyddiad cau am geisiadau.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw ddwy ddogfen o blith y canlynol yn gymorth ar gyfer penderfynu eich bod yn byw mewn cyfeiriad penodol:-

- (i) Bil neu lythyr hysbysu gwreiddiol ynghylch y Dreth Gyngor neu Fudd-dal Tai nad yw'r dyddiad arno'n fwy na 12 mis yn ôl;
- (ii) Bil cyfleustodau gwreiddiol (nad yw'r dyddiad arno'n fwy na 3 mis yn ôl);
- (iii) Llythyr dyfarnu gwreiddiol ynghylch Budd-dal Plant neu Gredyd Treth Plant neu Gredyd Treth Gwaith (nad yw'r dyddiad arno'n fwy na thri mis yn ôl, **a'i fod yn nodi enw/enwau y plentyn/plant**);
- (iv) Cytundeb tenantiaeth/prydles wedi'i lofnodi a'i ddyddio, sy'n para am gyfnod o chwe mis neu ragor ond sydd â mis neu ragor ar ôl ar y cytundeb;
- (v) Cyfriflen cerdyn credyd neu gyfrif banc wreiddiol sy'n dangos y cyfeiriad (nad yw'r dyddiad arni'n fwy na dau fis yn ôl);
- (vi) Cadarnhad ysgrifenedig gan Fanc neu Gymdeithas Adeiladu yr ymgeisydd yn cadarnhau manylion ynghylch newid cyfeiriad a hefyd y dyddiad pryd y daeth y newid cyfeiriad i rym;
- (vii) Trwydded yrru gyfredol ar ffurf cerdyn llun.

Fel rhan o'r broses dderbyn mae angen ichi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad mewn cysylltiad â'ch cais. Bydd yr Awdurdod yn ceisio gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd ac mae'n cadw'r hawl i fynnu bod ymgeisydd yn darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol i gadarnhau'r breswyliaeth neu i gymryd camau rhesymol i bennu a yw cais yn dwyllodrus ai peidio.

Os caiff lle ei gynnig mewn ysgol yn seiliedig ar gyfeiriad y canfyddir wedyn ei fod yn wahanol i gyfeiriad arferol a pharhaol y plentyn, yna mae'n bosibl y caiff y lle ei dynnu'n ôl.

Os bydd rhiant neu berson sydd â chyfrifoldeb rhiant cyfreithiol dros y plentyn yn rhoi datganiad anwir, gan wybod a chan fwriadu hynny, a fyddai'n effeithio ar lwyddiant eu cais, yna mae'n bosibl y caiff y lle a gynigiwyd ei dynnu'n ôl.

Os na ddarperir prawf preswyliaeth yna ni fydd yr Awdurdod yn gallu prosesu'r cais ac mae'n bosibl y caiff y lle ei ddyfarnu i ddisgybl arall.

Symud Tŷ / Newid Cyfeiriad

Os ydych yn bwriadu symud tŷ ac rydych yn cyflwyno cais am le mewn ysgol ar sail y cyfeiriad newydd bydd y Cyngor yn cymryd camau i wirio'r trefniadau. Bydd y Cyngor hefyd yn derbyn llythyr cyfreithiwr yn datgan y cyfnewidiwyd contractau ac yn nodi'r dyddiad cwblhau neu gytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi a'i ddyddio fel y nodwyd yn (iv) uchod. Os na allwch ddarparu prawf o'ch cyfeiriad erbyn y dyddiad a roddir ar gyfer cael ceisiadau yna bydd eich cais yn cael ei seilio ar eich cyfeiriad cyfredol.

Cyfrifoldeb ar y Cyd

Os oes cyfrifoldeb ar y cyd dros y plentyn, ac os yw'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant, neu gyda phersonau sydd â chyfrifoldeb riant cyfreithiol dros y plentyn, am ran o'r wythnos, yna penderfynir mai'r cyfeiriad lle mae'r plentyn yn byw am y rhan fwyaf o'r wythnos ysgol fydd y brif breswylfa. Mae'n bosibl y gofynnir i'r rhieni ddarparu tystiolaeth ddogfennol a fydd yn ategu'r cyfeiriad a ddefnyddir pan gaiff lle ei gynnig.

8. Rhoi Lleoedd - Y Meini Prawf Gor-alw

Y meini prawf gor-alw ar gyfer derbyn i ysgolion meithrin, cynradd ac uwchradd gwirfoddol a reolir a chymunedol

Os derbynnir mwy o geisiadau nag sydd o leoedd mewn ysgol benodol, neilltuir lleoedd gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol a restrir yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant sy'n derbyn gofal a phlant oedd yn arfer derbyn gofal.
2. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno adeg fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol.
3. Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ond na fydd ganddynt frawd na chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno adeg fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol.
4. Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol y bydd ganddynt frawd neu chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno adeg fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol.

- Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch dynodedig yr ysgol ac na fydd ganddynt frawd na chwaer wedi'i gofrestru/chofrestru yno adeg fydd y plentyn yn dechrau yn yr ysgol.

Dalier sylw: pan fo Datganiad o Anghenion Addysgol yn enwi ysgol benodol mae'n rhaid datgan hynny'n glir ar y ffurflen gais. Ymdrinnir â'r ceisiadau hyn ar wahân, cyn troi at y meini prawf gor-alw.

Sylwch na ellir defnyddio cais am le Meithrin ar gyfer plentyn 3 oed fel maen prawf sy'n rhoi blaenoriaeth wrth neilltuo lleoedd llawn amser i'r un plentyn yn 4 oed.

NODIADAU

Ym mhob un o'r categorïau uchod:

Y Meini Prawf o ran Pellter

Defnyddir y pellter o'r cartref i'r ysgol yn faen prawf ar gyfer penderfynu blaenoriaeth, a rhoddir blaenoriaeth a lle yn yr ysgol i'r sawl sy'n byw agosaf at yr ysgol dros y sawl sy'n byw ymhellach i ffwrdd. Mesurir y pellter ar yr un sail a chan ddefnyddio'r un meini prawf â'r rheini ar gyfer asesu a yw disgybl yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol h.y. mapiau google - edrychwch ar yr adran gludiant yn y ddogfen hon i gael rhagor o fanylion.

Mesurir y pellter o gyfeiriad y cartref i'r ysgol ar hyd y llwybr agosaf o fynedfa'r ysgol i'r pwynt mynediad agosaf i gyfeiriad y cartref o'r briffordd neu lwybr troed.

Brodyr a Chwiorydd

Ystyrir bod plant yn frodyr ac yn chwiorydd os ydynt yn: brawd llawn neu chwaer lawn/hanner brawd neu hanner chwaer/llysfrawd neu lyschwaer; brawd mabwysiadol neu chwaer fabwysiadol yn byw yn yr un cyfeiriad cartref.

Plant Genedigaeth Luosog

O dan unrhyw amgylchiadau pan fydd un lle ar gael a phan fydd y plant cymwys nesaf yn efeilliaid/tripledi bydd yr ALL yn derbyn y ddau/yr holl blant.

Plant Aelodau Lluoedd Arfog y DU

Bydd plant Aelodau Lluoedd Arfog y DU yn cael eu trin fel pe baent o fewn y dalgylch os yw eu ffurflen gais yn cynnwys llythyr swyddogol gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) yn nodi dyddiad dychwelyd pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd o fewn y dalgylch.

Y Nifer Derbyn (ND) – Terfyn ar nifer y disgyblion a dderbynnir i ysgol

Mae gan bob ysgol Nifer Derbyn (ND) cyhoeddedig sy'n nodi ac yn cyfyngu ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn yr ysgol. Nodir y ND ar gyfer pob ysgol yn y rhestr o ysgolion yn y llyfryn hwn.

Mae nifer derbyn pob ysgol wedi cael ei bennu gan ddefnyddio'r fformiwla cyfrifo a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyfrifiad yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol (Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru - Cylchlythyr 021/2011) ac mae'n ymwneud ag arwynebedd ffisegol adeiladau'r ysgol, y math o gyfleusterau sydd yn yr ysgol, ystod oedran a nifer y grwpiau blwyddyn yn yr ysgol.

Gan fod y ND yn seiliedig ar allu'r ysgol i ddarparu lle a chyfleusterau addas ar gyfer disgyblion ni ddylid mynd heibio'r terfyn hwnnw.

Mae'r ND yn berthnasol i'r grŵp oed y derbynnir y disgyblion iddo yn yr ysgol, ac mae'n gosod terfyn ar nifer y disgyblion y gellir eu derbyn. Yn y flwyddyn dderbyn arferol, rhaid i'r Awdurdod Derbyn dderbyn disgyblion hyd nes y cyrhaeddir y ND.

Os yw nifer y ceisiadau am leoedd mewn ysgol yn fwy na'r ND bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu'r ceisiadau a dderbyniodd yn unol â'r meini prawf gor-alw a nodir yn y ddogfen hon. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n bosib na fydd rhieni yn llwyddo i gael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol. Rhaid i lywodraethwyr ysgol a'r ALI gadw golwg gyson ar y ND.

Ysgolion Dau Safle

Pan gyflwynir cais ar gyfer derbyn i ysgol sy'n gweithredu ar fwy nag un safle, bydd yr Awdurdod yn cymeradwyo derbyn i'r ysgol ac nid i safle penodol. Yr ysgol fydd yn penderfynu pa safle y bydd y plant yn ei fynychu.

Plant Sipsiwn a Theithwyr

Bydd ceisiadau derbyn ar gyfer teuluoedd sipsiwn a theithwyr yn cael eu trin gyda'r bwriad o roi'r plant hyn mor gyflym ag y bo modd yn yr ysgol agosaf a mwyaf addas sydd ar gael.

9. Rhoi gwybod am Dderbyn i Ysgol

Bydd rhieni'n cael gwybod trwy lythyr neu e-bost am ganlyniad eu cais. Anfonir llythyr at ymgeiswyr llwyddiannus yn cynnig lle yn yr ysgol ac yn rhoi'r cyfle iddynt dderbyn y lle. Ynghyd â'r "llythyr cynnig" bydd ffurflen dderbyn sy'n gofyn ichi roi cadarnhad i'r Awdurdod eich bod yn derbyn lle yn yr ysgol.

Y Rhestr Aros

Pan na fu modd derbyn disgybl i ysgol oherwydd gor-alw, bydd yr Awdurdod yn cynnig cadw'r cais yn y ffeil tan 30 Medi, 2017, gan greu "rhestr aros". Os daw lleoedd gwag ar gael yna cânt eu dyfarnu'n unol â'r meini prawf gor-alw a amlinellwyd yn hytrach nag ers pryd y bu'r cais ar y rhestr aros. Dylid nodi bod yn rhaid i geisiadau newydd gael eu cyflwyno ar ôl y dyddiad cau sydd ar 30 Medi.

Tynnu Cynnig o Le yn Ôl

Tynnir cynnig o le mewn ysgol yn ôl os:

- (i) darganfyddir yn ddiweddarach y cafodd cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol ei gyflwyno (e.e. hawlio trwy dwyll fod ymgeisydd yn preswyllo yn nalgylch yr ysgol); neu
- (ii) os nad yw'r ffurflen dderbyn a anfonir gyda'r llythyr cynnig yn cael ei hanfon yn ôl at yr Awdurdod Derbyn erbyn y dyddiad a nodir ar y llythyr. Yna gall y Awdurdod dynnu'r cynnig yn ôl a rhoi'r lle i blentyn arall.

- (iii) mae derbyn lle mewn ysgol arall yn cael ei gadarnhau gan riant/gwarcheidwad.
- (iv) os nad yw disgybl wedi dechrau mewn ysgol ar ddiwedd y tymor ysgol sef y tymor yr oedd i fod i ddechrau yn unol â pholisi'r cyngor.

10. Apeliadau Derbyn – Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Gwirfoddol a Reolir a Chymunedol

Os na fydd rhieni'n llwyddo i gael lle i'w plentyn yn eu dewis ysgol, fe'u hysbysir yn ysgrifenedig o'r rheswm/rhesymau am hyn ac hefyd am eu hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a'r broses o wneud hynny.

Ar gyfer Ysgolion Cymunedol ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir bydd y Awdurdod yn trefnu bod Pwyllgor Apêl Annibynnol yn ystyried yr apeliadau. Cynhelir y broses apeliadau yn unol â Chôd Ymarfer Apeliadau Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Nid oes hawl i apelio yn achos gwrthod mynediad i darpariaeth ran amser y Blynnydoedd Cynnar.

Cynhelir apeliadau yn breifat, heblaw bod y corff neu'r cyrff sy'n gyfrifol am drefnu'r apêl yn rhoi cyfarwyddiadau i'r gwrthwyneb, ond bydd rhieni yn cael cyfle i gyflwyno'u hachos naill ai'n uniongyrchol neu gyda chymorth cynrychiolydd o'u dewis hwy. Bydd y Clerc yn hysbysu pob parti o benderfyniad y Panel, a fydd yn rhwymo'r Awdurdod, y Corff Llywodraethu a'r rhieni.

Rhaid i rieni gyflwyno apêl yn erbyn gwrthod lle mewn Ysgol Gymunedol neu Wirfoddol a Reolir yn ysgrifenedig i'r Uned Gwasanaethau Democraidd, Adran y Prif Weithredwr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP. Os bydd angen tystiolaeth feddygol bydd angen ichi ddarparu copiâu o adroddiadau sy'n ymwneud â'r diagnosis gan yr Ymgynghorydd a/neu'r Arbenigwr perthnasol.

Bydd gan Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir eu trefniadau eu hunain ar gyfer cynnal apeliadau annibynnol.

Nifer o Apeliadau ar Gyfer Ysgolion Sir Gaerfyrddin 2015/16

| Enw'r Ysgol | Nifer o Apeliadau | Apeliadau Llwyddianus |
|---------------------|-------------------|-----------------------|
| Bigyn | 9 | 9 |
| Bro Dinefwr | 6 | 5 |
| Bryn | 2 | 2 |
| Brynteg | 8 | 7 |
| Brynaman | 4 | 4 |
| Bryngwyn | 3 | 2 |
| Burry port | 6 | 6 |
| Copperworks | 1 | 1 |
| Ffwrnes | 8 | 8 |
| Pum Heol | 3 | 3 |
| Gorslas | 7 | 7 |
| Griffith Jones | 1 | 1 |
| Gwenllian | 2 | 2 |
| Brynsierfel | 2 | 2 |
| Rhydaman | 16 | 16 |
| Halfway | 1 | 1 |
| Tre-loan | 4 | 4 |
| Maes-Llyn | 3 | 3 |
| Llanddarog | 1 | 1 |
| Llandybie | 1 | 1 |
| Llangennech Babanod | 11 | 11 |
| Llangennech Iau | 5 | 5 |
| Llangynnwr | 1 | 1 |
| Llannon | 12 | 8 |
| Llechyfedach | 1 | 1 |
| Maes y morfa | 8 | 6 |
| Parc Yr Hun | 4 | 4 |
| Pembre | 3 | 3 |
| Peniel | 2 | 1 |
| Penygaer | 4 | 4 |
| Penygroes | 1 | 1 |
| Pontyberem | 12 | 12 |
| Saron | 6 | 6 |
| Stebonheath | 9 | 9 |
| Swiss Valley | 8 | 8 |
| Teilo Sant | 1 | 1 |
| Ty Croes | 12 | 12 |
| Y Castell | 12 | 12 |
| Y Dderwen | 1 | 1 |
| Y Ddwylan | 2 | 2 |
| Y Felin | 1 | 1 |

11. Derbyn i Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr

Dylai rhieni sy'n dymuno anfon eu plentyn i Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr gysylltu â Phennaeth yr ysgol honno. Nodir y manylion cyswllt yn y rhestr o ysgolion mewn rhan arall o'r llyfryn hwn.

Corff Llywodraethu'r ysgol sy'n delio â'r trefniadau derbyn ac apeliadau ar gyfer Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr.

1. Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Model

Mae ein polisi derbyn fel a ganlyn:-

Nifer Derbyn yr ysgol yw 60 disgybl. Golyga hynny mai nifer y disgyblion y gellir eu derbyn i unrhyw grŵp blwyddyn yn yr ysgol yw 60 disgybl. Os oes mwy o geisiadau nag sydd o leoedd defnyddir y meini prawf canlynol er mwyn blaenoriaethu ceisiadau:-

1. Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant oedd yn Arfer Derbyn Gofal.
2. Plant sy'n byw ym mhlwyfi hanesyddol Dewi Sant a San Pedr, Caerfyrddin.
3. Plant sydd â brodyr neu chwiorydd sydd eisoes yn mynychu'r ysgol.
4. Plant sydd wedi cael bedydd Cristnogol ac sy'n byw'r tu allan i blwyf Dewi Sant a San Pedr, os oes lle ar gael. Gellid gofyn hefyd am lythyr o gefnogaeth oddi wrth yr offeiriad plwyf lleol.

Bydd plant sydd â datganiadau o anghenion addysgol sy'n enwi'r ysgol yn cael lleoedd cyn defnyddio'r meini prawf gor-alw

Nodwch - ym mhob un o'r categorïau uchod rhoddir blaenoriaeth i:

- a. Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n byw dros dro yn lloches Cymorth i Fenywod Caerfyrddin.
- b. Plant aelodau o'r lluoedd arfog sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol:
- c. Bydd plant sydd ag efaill neu frawd neu chwaer arall o enedigaeth luosog yn cael eu derbyn yn ddisgyblion na chânt eu heithrio, fel y disgybl(ion) olaf i gael lle cyn cyrraedd y nifer derbyn.

- ch. Bydd y disgyblion a eithrir bellach yn cynnal y statws hwn ar hyd eu cyfnod mewn dosbarth babanod neu tan fod dosbarthiadau yn cael eu haildrefnu neu fod niferoedd yn cyrraedd lefel sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch maint dosbarthiadau babanod.
- d. Bydd y pellter o'r cartref i'r ysgol, fel y mesurwyd gan y radiws byrraf o'r adeilad ysgol fwyaf canolog, yn cael ei ddefnyddio yn faen prawf ar gyfer penderfynu blaenoriaeth, a rhoddir blaenoriaeth a lle yn yr ysgol i'r sawl sy'n byw agosaf at yr ysgol dros y sawl sy'n byw ymhellach i ffwrdd.

Ni fyddwn yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon os byddai gwneud hynny yn niweidio addysg plant eraill trwy ganiatáu i nifer y plant yn yr ysgol gynyddu gormod.

Apeliadau Derbyn i Ysgolion

Bydd y Corff Llywodraethu'n trefnu bod apêl gan riant yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn disgybl yn cael ei chlywed gan Bwyllgor Apêl Annibynnol yn unol â'r rheoliadau. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apêl Annibynnol yn rhwymo'r Corff Llywodraethu a'r rhiant.

2. Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Penboyr

Y Meini Prawf o Ran Derbyn i Ysgol Penboyr

Os bydd nifer y plant sy'n ceisio lle yn yr ysgol yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, cynigir lle ar sail blaenoriaeth yn y drefn ganlynol:

- (a.i) Plant sy'n derbyn gofal sy'n gymunwyr y ffydd Anglicanaidd.
- (a.ii) Plant a oedd yn arfer derbyn gofal, sy'n gymunwyr y ffydd Anglicanaidd ac sydd bellach wedi cael eu mabwysiadu.
- (b.i) Plant sy'n derbyn gofal.
- (b.ii) Plant a oedd yn derbyn gofal ond sydd bellach wedi cael eu mabwysiadu.
- (c) Plant sydd â brodyr neu chwiorydd, p'un a yw'r rheiny'n frodyr neu chwiorydd maeth, mabwysiedig neu sy'n byw yn barhaol yn

yr un cyfeiriad, sydd ar gofrestr yr ysgol ar y dyddiad derbyn arfaethedig.

- (ch) Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.
- (d) Plant o deuluoedd sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ond sy'n gymunwyr rheolaidd mewn eglwys Anglicanaidd.
- (dd) Plant o deuluoedd sy'n perthyn i enwadau Cristnogol eraill ac sy'n byw y tu allan i'r dalgylch ac y mae eu rhieni am iddynt dderbyn addysg mewn Ysgol Eglwysig Anglicanaidd.
- (e) Plant o deuluoedd sy'n byw y tu allan i'r dalgylch uchod nad ydynt yn addolwyr Cristnogol ond y mae eu rhieni am iddynt dderbyn addysg mewn Ysgol Eglwysig Anglicanaidd.

Ym mhob achos, mae 'hawl i apelio' yn erbyn penderfyniad i wrthod cais am dderbyn plentyn i'r ysgol ac mae'n rhaid cyflwyno'r apêl i Gadeirydd y Corff Llywodraethu.

Apeliadau Derbyn i Ysgolion

Bydd y Corff Llywodraethu'n trefnu bod apêl gan riant yn erbyn penderfyniad i wrthod derbyn disgybl yn cael ei chlywed gan Bwyllgor Apêl Annibynnol yn unol â'r rheoliadau. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apêl Annibynnol yn rhwymo'r Corff Llywodraethu a'r riant.

3. Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Pentip

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethu yw derbyn plant i'r ysgol. Hyn a hyn o ddisgyblion y caiff ysgol eu derbyn mewn unrhyw grŵp blwyddyn. Y Nifer Derbyn presennol yw 27 mewn unrhyw grŵp blwyddyn.

Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru yw Pentip yn bennaf, sy'n gwasanaethu Deoniaeth Cydweli ac ardal Llanelli fel y nodir ar fap yr ALI. Mae'r llywodraethwyr yn croesawu ceisiadau gan rieni disgyblion o enwadau eraill sy'n cefnogi ethos a thraddodiadau Cristnogol yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethu'n ystyried ceisiadau am dderbyn i'r ysgol yn ystod Tymor yr Hydref cyn y flwyddyn academaidd y bydd y disgybl yn dechrau yn yr ysgol.

Dylai'r ceisiadau gael eu gwneud i'r Pennaeth drwy ffonio 01554 758602 neu drwy anfon neges e-bost at: admin@pentip.ysgolccc.org.uk). Os bydd gormod o alw am leoedd, mae'r meini prawf ar gyfer derbyniadau fel a ganlyn:-

1. Disgyblion â naill ai brawd neu chwaer yn yr ysgol eisoes.
2. Plant sy'n byw o fewn y dalgylch dynodedig a ddangosir ar fap yr ALL. Mae map yn dangos y dalgylch ar gael yn yr ysgol.
3. Plant yr Eglwys yng Nghymru, sydd wedi eu bedyddio ac sydd o Ddeoniaeth Cydweli.
4. Plant â rhieni o enwadau eraill sydd am ategu ethos a thraddodiadau Cristnogol yr ysgol a bod yn rhan ohonynt.

Noder - ym mhob un o'r categorïau uchod rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal.

Os gwrthodir cais am le, mae gan rieni'r hawl i apelio. Dylid anfon llythyr at Gadeirydd y Corff Llywodraethu, yn apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle. Gwrandewir ar eich apêl gan banel apeliadau annibynnol. Bydd penderfyniad y panel yn rhwymo'r llywodraethwyr a'r apelyddion.

4. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Llanelli

Y Broses Gwneud Cais

Gellir cael ffurflenni cais am fynediad i'r ysgol, drwy ofyn amdanynt, oddi wrth Swyddog Gweinyddol yr Ysgol a dylid eu dychwelyd i'r ysgol (Rhif ffôn: 01554 759178, e-bost: admin@stmarysl.ysgolccc.org.uk). Yna, mae ceisiadau am fynediad i'r ysgol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Derbyn a Bugeilio bob tymor ar gyfer mynediad ddechrau'r tymor nesaf. Mae plant meithrin yn cael eu derbyn yn y tymor ar ôl eu trydydd penblwydd. Bydd ceisiadau hwyr, neu geisiadau a wneir ar ôl i'r Pwyllgor gyfarfod, yn cael eu trafod yn brydlon; fel arfer, byddant yn cael eu hystyried gan ddau aelod o'r Pwyllgor a enwebwyd at y diben hwnnw gan y Pwyllgor i weithredu ar ei ran.

Y Meini Prawf Gor-alw

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn croesawu ceisiadau gan deuluoedd sy'n ceisio addysg Gristnogol i'w plant.

Os bydd nifer yr ymgeiswyr yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf gor-alw canlynol:

1. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio.
2. Plant eraill nad ydynt yn Gatholig sydd wedi'u bedyddio.
3. Plant sy'n perthyn i gymunedau ffydd nad ydynt yn Gristnogol.
4. Plant sydd â brawd neu chwaer (h.y. brawd, chwaer, hanner brawd, hanner chwaer, llysfrawd, llyschwaer, brawd mabwysiadol neu chwaer fabwysiadol) wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn cael ei (d)derbyn i'r ysgol.
5. Gall y Corff Llywodraethu roi ystyriaeth i geisiadau a wnaed gan rieni a all ddangos bod mynediad yn angenrheidiol er lles meddygol neu gymdeithasol eu plentyn. Bydd angen tystiolaeth ategol annibynnol.

Noder:

- Ym mhob un o'r categorïau uchod rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal.
- Ym mhob un o'r categorïau uchod, bydd y pellter o'r cartref i'r ysgol yn ffactor sy'n penderfynu, gyda'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael y flaenoriaeth uchaf.

Apeliadau

Os gwrthodir cais am le, mae gan rieni'r hawl i apelio. Dylid anfon llythyr at Gadeirydd y Corff Llywodraethu, yn apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle. Gwrandewir ar yr apêl gan Banel Apêl Annibynnol; mae hwn yn annibynnol ar y Corff Llywodraethu a holl gynrychiolwyr eraill yr ysgol, a bydd ei benderfyniad yn rhwymo'r Corff Llywodraethu a'r apelyddion.

5. Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Caerfyrddin

Gellir cael ffurflenni cais am fynediad i'r ysgol, drwy ofyn amdanynt, oddi wrth Swyddog Gweinyddol yr Ysgol a dylid eu dychwelyd i'r ysgol (Rhif ffôn: 01267 234297, e-bost: admin@stmarysc.ysgolccc.org.uk).

Yna, mae ceisiadau am fynediad i'r ysgol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Derbyn a Bugeilio bob tymor ar gyfer mynediad ddechrau'r tymor nesaf.

Mae plant meithrin yn cael eu derbyn yn y tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd. Bydd ceisiadau hwyr, neu geisiadau a wneir ar ôl i'r Pwyllgor gyfarfod, yn cael eu trafod yn brydlon; fel arfer, byddant yn cael eu hystyried gan ddau aelod o'r Pwyllgor a enwebwyd at y diben hwnnw gan y Pwyllgor i weithredu ar ei ran.

Y Meini Prawf Gor-alw

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn croesawu ceisiadau gan deuluoedd sy'n ceisio addysg Gristnogol i'w plant. Os bydd nifer yr ymgeiswyr yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, defnyddir y meini prawf gor-alw canlynol:

1. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio.
2. Plant eraill nad ydynt yn Gatholig sydd wedi'u bedyddio.
3. Plant sy'n perthyn i gymunedau ffydd nad ydynt yn Gristnogol.
4. Plant sydd â brawd neu chwaer (h.y. brawd, chwaer, hanner brawd, hanner chwaer, llysfrawd, llyschwaer, brawd mabwysiadol neu chwaer fabwysiadol) wedi'u cofrestru yn yr ysgol pan fydd y plentyn yn cael ei (d)derbyn i'r ysgol.
5. Gall y Corff Llywodraethu roi ystyriaeth i geisiadau a wnaed gan rieni a all ddangos bod mynediad yn angenrheidiol er lles meddygol neu gymdeithasol eu plentyn. Bydd angen tystiolaeth ategol annibynnol.

Noder:

- Ym mhob un o'r categorïau uchod rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal.
- Ym mhob un o'r categorïau uchod, bydd y pellter o'r cartref i'r ysgol yn ffactor sy'n penderfynu, gyda'r rheiny sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael y flaenoriaeth uchaf.

Apeliadau

Os gwrthodir cais am le, mae gan rieni'r hawl i apelio. Dylid anfon llythyr at Gadeirydd y Corff Llywodraethu, yn apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle. Gwrandewir ar yr apêl gan Banel Apêl Annibynnol; mae hwn yn annibynnol ar y Corff Llywodraethu a holl gynrychiolwyr eraill yr ysgol, a bydd ei benderfyniad yn rhwymo'r Corff Llywodraethu a'r apelyddion.

6. Ysgol Gyfun Gatholig Sant Ioan Llwyd

Y Meini Prawf Gor-alw

Mae Polisi Derbyn a Gor-alw Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Gatholig Sant Ioan Llwyd fel a ganlyn:

Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhieni sydd heb fod o'r un ffydd â'r ysgol hon neu sydd heb fod o unrhyw ffydd, i wneud cais am le yma ac i gael y cais hwnnw wedi ei ystyried. Yn wir, mae'r ysgol yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan bob teulu. Nifer Derbyn yr Ysgol ar hyn o bryd yw 93.

Os yw nifer y ceisiadau'n fwy na'r nifer derbyn, bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r ceisiadau'n unol â'r meini prawf a restrir, ar yr amod bod y llywodraethwyr yn gwybod am y ceisiadau hynny cyn bod penderfyniadau ynghylch derbyniadau'n cael eu gwneud.

Ym mhob categori bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth i'r sawl sydd â brawd neu chwaer yn mynychu Ysgol Gyfun Gatholig Sant Ioan Llwyd ac yna i'r plant sy'n byw agosaf i'r ysgol.

1. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio ac sydd yng ngofal awdurdod lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu sy'n cael llety drwy awdurdod lleol (e.e. plant â rhieni maeth) (Adran 22 o Ddeddf Plant 1989) a phlant sydd â datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd wedi enwi Ysgol Sant Ioan Llwyd. Bydd hyn yn golygu y bydd llai o leoedd ar gael i ymgeiswyr eraill.
2. Plant nad ydynt yn Gatholig sydd yng ngofal awdurdod lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu sy'n cael llety drwy awdurdod lleol (e.e. plant â rhieni maeth) (Adran 22 o Ddeddf Plant 1989) a phlant sydd â datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd wedi enwi Ysgol Sant Ioan Llwyd. Bydd hyn yn golygu y bydd llai o leoedd ar gael i ymgeiswyr eraill.
3. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio ac sy'n mynychu ysgol fwydo Gatholig benodedig.
4. Plant Catholig sydd wedi'u bedyddio ac sy'n byw ar hyn o bryd ym mhlwyf ysgol fwydo Gatholig benodedig nad ydynt yn mynychu'r ysgol fwydo Gatholig benodedig ar hyn o bryd.
5. Plant Catholig eraill a phlant yr Eglwys yng Nghymru sydd wedi'u bedyddio.

6. Plant eraill sy'n mynychu ysgol fwydo Gatholig benodedig ar hyn o bryd.
7. Plant eraill sy'n mynychu ysgolion yr Eglwys yng Nghymru.
8. Plant eraill nad ydynt yn Gatholig.

Y Broses Gwneud Cais

Gwahoddir rhieni a disgyblion Blwyddyn 6 i fynychu Noson Agored ym mis Hydref. Dylid cyflwyno ceisiadau i'r ysgol erbyn 16eg Rhagfyr 2016.

Caiff rhieni wybod a gafodd eu plentyn gynnig lle yn dilyn cyfarfod o Is-Bwyllgor Derbyn y Corff Llywodraethu yn nhymor y gwanwyn. Bydd llythyron yn cael eu hanfon i bob ymgeisydd ar 1af Mawrth 2017.

Apelidau

Os gwrthodir cais am le, mae gan rieni'r hawl i apelio. Dylid anfon llythyr at Gadeirydd y Corff Llywodraethu, yn apelio yn erbyn y penderfyniad i beidio â chynnig lle. Gwrandewir ar eich apêl gan Banel Apêl Annibynnol ; mae hwn yn annibynnol ar y Corff Llywodraethu a holl gynrychiolwyr eraill yr ysgol, a bydd ei benderfyniad yn rhwymo'r Corff Llywodraethu a'r apelyddion.

1. Tymhorau Ysgol a Dyddiadau Gwyliau am 2017/2018

Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.

Dyddiadau'r Tymor

| | | Gwyliau Hanner Tymor | | | |
|--|-------------------------|---|----------------------------|------------------------------|-----------|
| Tymor | Tymor yn Dechrau | Yn dechrau | Yn gorffen | Tymor yn Gorffen | Diwrnodau |
| Tymor yr Hydref 2017 | Dydd Mawrth 5ed Medi | Dydd Llun 30ain Hydref | Dydd Gwener 3ydd Tachwedd | Dydd Gwener 22ain Rhagfyr | 74 |
| Tymor y Gwanwyn 2018 | Dydd Llun 8fed Ionawr | Dydd Llun 19eg Chwefror | Dydd Gwener 23ain Chwefror | Dydd Iau 29ain Mawrth | 54 |
| Tymor yr Haf 2018 | Dydd Mawrth 17eg Ebrill | Dydd Llun 28ain Mai | Dydd Gwener 1af Mehefin | Dydd Gwener 24ain Gorffennaf | 65 |
| Dyddiau HMS dynodedig - Ebrill, 2018 | | Dydd Llun, 4ydd Medi, 2017; Dydd Llun, 16eg | | | 2 |
| | | | | Cyfanswm | 195 |
| D.S. Dydd Gwener y Groglith – 30ain Mawrth, 2018; Calan Mai – 7fed Mai, 2018 | | | | | |

2. Cwricwlwm yr Ysgol

Yn ystod addysg gynradd a thair blynedd gyntaf addysg uwchradd mae pob ysgol yn cynnig rhaglen eang a chytbwys sy'n cynnwys holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Amcan y cwricwlwm a gynigir ymhob ysgol yw galluogi'r holl ddisgyblion i gyrraedd eu llawn botensial.

B

Yn y bedwaredd a'r bumed flwyddyn yn yr ysgol uwchradd mae'r disgyblion yn parhau i astudio pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ond gyda chyfle ar gyfer opsiynau sy'n cydweddu â doniau a diddordebau arbennig y disgyblion. Ymgynghorir yn llawn â rhieni ynglŷn â'r opsiynau hyn ac mae cynghorwr gyrfaoedd yn gysylltiedig â phob ysgol i gynnig arweiniad.

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys pynciau craidd: Saesneg, Cymraeg lle mae'n brif gyfrwng ym mywyd a gwaith yr ysgol, mathemateg a gwyddoniaeth. Y pynciau sylfaen yw technoleg, hanes, daearyddiaeth, iaith dramor fodern (mewn ysgolion uwchradd yn unig), cerddoriaeth, celf, addysg gorfforol a Chymraeg, lle nad yw'n bwnc craidd.

Mae'n rhaid i bob ysgol gynnig addysg grefyddol. Mae gan rieni yr hawl i eithrio eu plant o'r ddarpariaeth addysg grefyddol a chydaddoliad mewn ysgol. Dylid gwneud ceisiadau o'r fath i bennaeth yr ysgol.

Egwyddorion Cyffredinol

Mae Sir Gaerfyrddin yn credu yng ngwerth addysgol bod yn hyddysg mewn dwy iaith ac mae'n gryf o blaid cael polisi dwyieithog yn ei hysgolion cynradd.

Nod y polisi dwyieithog hwn yn y tymor hir yw addysgu plant i fod yn gwbl ddwyieithog yn eu defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau llawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Dylai'r ddarpariaeth sicrhau bod plant yn gallu cyfathrebu'n hyderus yn y ddwy iaith a'u bod yn ymwybodol o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru.

Mae polisi iaith yr ysgolion uwchradd yn barhad o'r polisi cynradd ac mae'n adleisio statws y Gymraeg yn y cymunedau lle mae'r ysgolion.

Mae'r polisi iaith yn cydnabod bod pwyslais gwahanol ar yr iaith Gymraeg ac ar addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion y sir.

Nod y polisi yw rhoi cyfle i ddisgyblion barhau â chyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg fel eu bod wedi integreiddio'n llawn i'w cymunedau dwyieithog erbyn diwedd y broses addysgol.

Cwynion Ynghylch y Cwricwlwm Ysgol a Materion Cysylltiedig

Mae gan bob ysgol unigol bolisi ar gyfer ymdrin â chwynion.

Yn ddelfrydol, bydd unrhyw bryderon a allai fod gan rieni yn cael eu datrys yn anffurfiol drwy drafodaeth uniongyrchol â'r ysgol. Fodd bynnag, pe bai rhieni yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol, mae gan yr ysgol weithdrefnau sefydledig y mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod ar gael.

Mewn perthynas ag ysgolion gwirfoddol a reolir a'r rhai a gynorthwyr, gwahoddir cynrychiolydd o'r Corff Esgobaethol perthnasol i fod yn bresennol, yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig, pryd y caiff cwyn ei hystyried. Os yw'r gŵyn yn ymwneud â materion crefyddol, yna dilynir y drefn uchod, ond byddai'r Pwyllgor Cwynion hefyd yn cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, ac ar gyfer ysgolion cynradd gwirfoddol a reolir, byddai Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol fel sylwedydd.

Grwpiau Blwyddyn/Oedrannau Plant

Mae dilyniant disgybl drwy flynyddoedd addysg orfodol yn cael ei rannu i bedwar cyfnod allweddol. Mae'r tabl yn dangos y cyfnodau allweddol ar gyfer yr oedrannau plant a'r rhifau blynyddoedd cyfatebol.

| Cyfnod Allweddol | Disgrifiad o'r Grwpiau Blwyddyn | | Oed y mwyafrif ar ddiwedd y flwyddyn ysgol |
|---------------------------|---------------------------------|-------------------------------------|--|
| Blynyddoedd Cynnar | M1 | Meithrin 3 Blwydd oed (Rhan amser) | 4 |
| | M2 | Meithrin 4 Blwydd oed (Llaw amser) | |
| CA1 | Derbyn | Babanod | 5 |
| | B1 | Babanod | 6 |
| | B2 | Babanod | 7 |
| CA2 | B3 | lau | 8 |
| | B4 | lau | 9 |
| | B5 | lau | 10 |
| | B6 | lau | 11 |
| CA3 | B7 | Blwyddyn gyntaf Uwchradd | 12 |
| | B8 | Ail flwyddyn Uwchradd | 13 |
| | B9 | 3edd flwyddyn Uwchradd | 14 |
| CA4 | B10 | 4edd flwyddyn Uwchradd | 15 |
| | B11 | 5ed flwyddyn Uwchradd | 16 |
| CA5 (Y Chweched Dosbarth) | B12 | blwyddyn gyntaf y chweched dosbarth | 17 |
| | B13 | ail flwyddyn y chweched dosbarth | 18 |

3. Dysgu'r Gymraeg a'r Saesneg yn Ysgolion Sir Gaerfyrddin

Am y tro cyntaf yn 2012, cyhoeddodd yr Awdurdod eu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r ploisi yn manylu lle'r Gymraeg mewn addysg ac yn adnewyddu bob blwyddyn. Gallwch gael y copi fwyaf diweddar o'r cynllun trwy'r Adran Addysg a Phlant.

Mae'r tablau canlynol yn diffinio'r categorïau iaith sy'n berthnasol i ysgolion ac mae'r rhestr o ysgolion yng nghanol y llyfryn hwn yn nodi categori iaith pob ysgol unigol.

Ysgolion Cynradd

| Categori | Cwricwlwm | Iaith yr Ysgol | Canlyniadau |
|---------------------------|---|--|--|
| Cyfrwng Cymraeg WM | Cyfnod Sylfaen – cyfrwng Cymraeg. CA2 – mae o leiaf 70% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cymraeg yw iaith cy-fathrebu gyda disgyblion a gwaith pob dydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cy-fathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall. | Bydd disgyblion, ni waeth beth yw iaith y cartref, yn gallu tros-glwyddo i ddarpariaeth uw-chradd cyfrwng Cymraeg ac y byddant wedi cyrraedd, yn erbyn diwedd CA2, yr un safon yn Saesneg â disgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg. |
| Dwy Ffrwd DS | Mae dau fath o ddarpariaeth, sef cyfrwng Cymraeg yn bennaf a chyfrwng Saesneg yn bennaf, yn bodoli ochr yn ochr yn yr ysgolion hyn. | Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Natur y ddarpariaeth gwricwlaidd sy'n pennu iaith y cy-fathrebu. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall. | Ar gyfer disgyblion yn y ffrwd Gymraeg - disgwylir, fel rheol, yr un canlyniadau ag ar gyfer y categori Cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer disgyblion yn y ffrwd Saesneg - disgwylir, fel rheol, yr un canlyniadau ag ar gyfer y categori Cyfrwng Saesneg. |

| | | | |
|---|---|--|--|
| Ysgol Drawsnewidiol TR | Cyfnod Sylfaen - meysydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. CA2 - defnyddir y naill iaith a'r llall, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Gymraeg - 50% - 70% | Gymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall. | Bydd rhai disgyblion, yn enwedig y rheiny o gartrefi Gymraeg yn gallu trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Gymraeg. Bydd pob disgybl wedi cyrraedd yr un safon yn y Saesneg â'r safon a gyrrhaeddir gan ddisgyblion mewn ysgolion sydd, yn bennaf, yn rhai cyfrwng Saesneg. |
| Ysgol cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg EW | Cyfnod Sylfaen – Mae'r disgyblion yn cael profiad o'r meysydd dysgu yn y naill iaith a'r llall ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. CA2 - defnyddir y naill iaith a'r llall, ond rhoddir mwy o bwyslais ar y Saesneg. Mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu a dysgu ar gyfer 20% - 50% o'r cwricwlwm cymraed yn gyffredinol. | Cyd-destun ieithyddol yr ysgol sy'n pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall. | Disgywlir y bydd y disgyblion, fel rheol, yn mynd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg, ond y bydd ganddynt well sgiliau o safbwynt y Gymraeg fel ail iaith. Bydd rhai o'r disgyblion yn gallu dilyn nifer bach o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Ysgol cyfrwng Saesneg EM | Cyfnod Sylfaen – Mae pob disgybl yn cael profiad o'r meysydd dysgu drwy gyfrwng y Saesneg. CA2 - addysgir y Gymraeg fel ail iaith. Mae llai na 20% o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg hefyd i gyfathrebu â'r disgyblion, i wella eu gallu i ddefnyddio Gymraeg bob dydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall. | Fel rheol, disgywlir y bydd y disgyblion yn trosglwyddo i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg ac yn parhau i ddyddio drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, gan ddyddio drwy Gymraeg fel ail iaith. |

Ystyriaethau Eraill - Ysgolion Gynradd

Mae dysgu'r Gymraeg a'r Saesneg, naill ai fel iaith gyntaf neu ail iaith, yn rhan hanfodol o raglen waith pob dosbarth yn holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yn unol â'r polisiau uchod, ond, mae angen darpariaeth arbennig ar gyfer y canlynol:-

- (i) y disgyblion hynny sy'n hwyrddyfodiaid i ysgolion cynradd y Sir;
- (ii) y disgyblion hynny a asesir yn swyddogol fel rhai ag anawsterau dysgu ac y byddai cyflwyno ail iaith yn llesteirio eu datblygiad addysgol ac y byddai addysg drwy gyfrwng y famiaith yn hanfodol iddynt [rhaid bod yn ymwybodol, fodd bynnag, o ofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol],
- (iii) disgyblion o wledydd tramor nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn ail iaith iddynt a lle gallai cyflwyno trydedd iaith atal eu datblygiad addysgol a lle byddai'r gallu i siarad Saesneg yn fanteisiol iddynt.

Nodir categori iaith pob ysgol yn y rhestr o ysgolion yn y llyfryn hwn.

Ysgolion Uwchradd

Addysgir y Gymraeg fel pwnc i bob disgybl tan ddiwedd Blwyddyn 11 yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae amrywiaeth o ddarpariaethau i ddysgu pynciau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg yn nifer o ysgolion uwchradd y sir a gall rhieni gael gwybodaeth benodol o'r ysgolion unigol. Mae tair ysgol uwchradd ddwyieithog lle mae'r rhan fwyaf o'r cwricwlwm yn cael ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgolion Uwchradd

| Categori | Cwricwlwm | Iaith yr Ysgol | Canlyniadau |
|---------------------------|--|--|--|
| Cyfrwng Cymraeg WM | Addysgir pob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl. Bydd rhai ysgolion, o bosibl, yn cyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau. | Cymraeg yw iaith cyfathrebu gyda disgyblion a gwaith pob dydd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall. | Disgwylir y bydd pob disgybl yn cael ei asesu ym mhob pwnc heblaw am Saesneg neu ieithoedd eraill drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3 a CA4. Bydd disgyblion yn gallu mynd ymlaen i ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg. |
| Dwyieithog | Mae'r categori hwn wedi ei rannu'n 4 is-adran, yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chan ddbynnu a yw'n cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg. | | |
| 2A | Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau'n cael eu haddysgu i rai disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall. | Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgolion yn cyfathrebu â'r rhieni yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall. | Ar gyfer disgyblion yng nghategoriâu 2A, 2B a 2C sy'n dilyn y nifer uchaf posibl o gyrisiau drwy gyfrwng y Gymraeg, byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 a byddent yn gallu symud ymlaen i ddarpariaeth ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis. |
| 2B | Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd. | | |
| 2C | Addysgir 50-79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd. | | |

| | | | |
|---|---|--|---|
| 2CH | Addysgir pob pwnc (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith a'r llall. | Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg. Mae'r ysgolion yn cyfathrebu â'r rhieni yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall. | Ar gyfer disgyblion yng nghategori 2Ch, byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc heblaw am Saesneg yn CA3 a CA4 a byddent yn gallu symud ymlaen i ddarpariaeth ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis. |
| Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg EW | Addysgir yn y naill iaith a'r llall, ac addysgir 20-49% o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rheol, byddai pob pwnc yn cael ei addysgu hefyd drwy gyfrwng y Saesneg. | Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a gweinyddu'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Gymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu gyda rhieni yn y naill iaith neu'r llall neu yn Saesneg. | Gellid asesu disgyblion sy'n dewis astudio yn Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel a gallant symud ymlaen i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl 16 oed yn y pynciau hynny. |
| Cyfrwng Saesneg EM | Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at CA4. Mae'n bosibl y gellir dysgu un neu ddau bwnc (a allai gynnwys y Gymraeg fel iaith gyntaf) drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y naill iaith a'r llall. | Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg hefyd i gyfathrebu â'r disgyblion, gan anelu at wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn y naill iaith a'r llall neu yn Saesneg. | Gallai unrhyw ddisgyblion sy'n dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel a byddent yn gallu symud ymlaen i astudio'r pynciau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl 16. Byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Saesneg a byddent yn symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Saesneg ar ôl 16. |

4. Arholiadau Cyhoeddus

Bydd yr ALI yn cydymffurfio â gofynion y ddeddf. Mae disgyblion, os yw'r pennaeth yn ystyried eu bod yn addas, yn cael eu cofrestru ar gyfer arholiadau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) a grwpiau arholi eraill.

Mae amserlenni arholiadau yn cael eu trefnu gan CBAC a grwpiau arholi eraill a hysbysir penaeithiaid ynghylch yr arholiadau hyn a'r canlyniadau yn uniongyrchol gan y grwpiau hynny.

5. Gwahardd Disgyblion

Y Pennaeth (neu athro/athrawes c/gyfrifol arall yn gweithredu yn enw'r Pennaeth) yw'r unig un â'r awdurdod i wahardd disgybl o'r ysgol am resymau disgyblu. Mae'n ddyletswydd ar y pennaeth i roi gwybod i'r rhieni a'r plant (neu i'r disgybl os yw'n 11 oed neu'n hŷn) a yw'r gwaharddiad yn un parhaol neu'n waharddiad am gyfnod penodedig, a'r rhesymau dros hynny. Gwahoddir rhieni i gyflwyno sylwadau ynghylch y gwaharddiad i banel disgyblu corff llywodraethu'r ysgol. Gellir cael copi o'r ddogfen gyfarwyddyd ar wahardd disgyblion o'r Adran Addysg a Phlant. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r Swyddog EOTAS, rhif ffôn: (01267) 246456.

6. Codi Tâl am Weithgareddau Ysgol

Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai addysg a ddarperir gan ysgol a gynhelir fod yn rhad ac am ddim pan fo'n digwydd yn llwyr neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol. Mewn rhai amgylchiadau gall ysgolion godi taliadau neu ofyn am gyfraniadau gwirfoddol a thynnir sylw rhieni at hyn cyn gwneud unrhyw ymrwymiad i weithgaredd neilltuol.

7. Dyddiad Gadael Ysgol

Gall disgyblion adael yr ysgol ar y dydd Gwener olaf ym Mehefin yn ystod Blwyddyn 11 yn yr ysgol uwchradd os ydynt wedi cyrraedd 16 mlwydd oed.

8. Yr Hawl i Weld Dogfennau

Mae'n rhaid i bob ysgol ganiatáu i rieni weld y dogfennau canlynol ar bob adeg resymol:-

- (i) Datganiad Polisi Cwricwlwm yr Adran Addysg a Phlant; datganiad ynghylch Amcanion Cwricwlwm yr ysgol;
- (ii) cylchlythyrau ac offerynnau statudol Llywodraeth Cymru;
- (iii) adroddiadau cyhoeddedig ESTYN yn ymwneud â'r ysgol
- (iv) cynlluniau gwaith a meysydd llafur
- (v) trefniadau ar gyfer ystyried cwynion ynghylch y cwricwlwm
- (v) y maes llafur cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol
- (vii) polisi'r Corff Llywodraethu o ran codi tâl a pheidio â chodi tâl.

9. Cyrff Llywodraethu Ysgolion

Mae gan bob ysgol gorff llywodraethu sy'n cynnwys aelodau o'r gymuned leol, rhieni, athrawon, staff a chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol. Hefyd mae Cyrff Llywodraethu Ysgolion Eglwysig (Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr ac Ysgolion Gwirfoddol a Reolir) yn cael eu cynrychioli gan yr awdurdod eglwysig.

Pan ddaw lleoedd gwag ar gyfer rhiant-lywodraethwyr, dosberthir gwybodaeth trwy law'r disgyblion ac er mwyn bod yn gymwys i gael ei enwebu yn rhiant-lywodraethwr, mae'n rhaid i unigolyn fod â phlentyn ar gofrestr yr ysgol y mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol amdani. Pedair blynedd yw cyfnod swydd llywodraethwyr a gall rhiant-lywodraethwr, os yw ef/hi yn dymuno, wasanaethu am y cyfnod cyfan hyd yn oed os nad yw ei blentyn/phlentyn bellach yn ddisgybl yn yr ysgol.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gyrff Llywodraethu gyfarfod o leiaf unwaith bob tymor.

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch cyrff llywodraethu gan yr Uned Derbyniadau Ysgolion yn yr Adran Addysg a Phlant.

1. Diwallu Anghenion Addysgol Ychwanegol/Arbennig

1.1 Clustnodi Anghenion

Mae gan rai plant anghenion addysgol ychwanegol a/neu anabledd lle mae'n rhaid sicrhau eu bod yn cael darpariaeth er mwyn iddynt allu dysgu'n effeithiol.

Caiff hyd at 20% o blant a phobl ifanc ryw fath o anawsterau dysgu.

Mae gan ryw 1% o blant a phobl ifanc anghenion sylweddol a pharhaus, ac mae angen darpariaeth ychwanegol arnynt. Darpariaeth ychwanegol yw hon, a hynny ar ben y cymorth a'r gefnogaeth ategol a roddir gan yr ysgol.

Mae llawer o'r plant sydd ag anghenion sylweddol a pharhaus yn cael eu clustnodi'n gynnar drwy weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd ar y cyd â'r rhieni. Mae hyn yn caniatáu i gynlluniau gael eu llunio er mwyn rhoi cymorth ac er mwyn ymateb yn gynnar fel y gellir diwallu anghenion o'r fath.

1.2 Asesu

Mae gweithwyr proffesiynol yn monitro cynnydd yr holl ddisgyblion a thrafodir unrhyw bryderon gyda'r rhieni. Yn y rhan fwyaf o achosion eir i'r afael â'r pryderon hyn drwy gyfrwng cymorth ac ymyrraeth gynnar a phennu targedau unigol gan yr athro dosbarth/athrawes ddosbarth.

Darperir cymorth ac ymyriadau ychwanegol pan fydd angen gyda chymorth, arweiniad a chefnogaeth Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yr Ysgol. Gelwir hyn yn 'Gweithredu gan yr Ysgol'.

Pan na fydd plant yn gwneud cynnydd, bydd yr athrawon yn sôn am eu pryderon wrth y rhieni ac yn ceisio cymorth gan bobl broffesiynol eraill megis athrawon ymgynghorol, athrawon cynnal ymddygiad, a seicolegwyr addysg a phlant. Mae'r bobl broffesiynol hyn yn rhoi cyngor, arweiniad, a chefnogaeth i'r disgybl, y rhieni, yr athrawon a'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mewn achosion eithriadol mae'n bosibl na fydd disgyblion yn gwneud cynnydd o hyd, er gwaethaf yr ymyriadau grŵp ac unigol a ddarparwyd. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n bosibl y bydd rhieni, athrawon neu weithwyr iechyd proffesiynol yn mynegi pryder ynghylch y plentyn.

Cynhelir Adolygiad sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a llunnir cynllun gweithredu, gyda chydweithrediad y rhieni, er mwyn darparu cymorth. Gall pryderon o'r fath olygu y caiff anghenion y plentyn yn cael eu adnabod mewn Cynllun Addysg Unigol neu cael eu cyflwyno i'w hystyried ar gyfer asesiad statudol.

- y rhieni
- y plentyn
- yr ysgol
- yr athrawon dosbarth
- y Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
- y staff cynorthwyol
- y Seicolegydd Addysg a Phlant
- Pobl Broffesiynol ym Maes Iechyd e.e. Pediatregydd
- y Ffisiotherapydd
- y Therapydd Lleferydd ac Iaith
- y Therapydd Galwedigaethol
- Gweithwyr Gofal Cymdeithasol proffesiynol
- unrhyw asiantaeth arall sy'n ymwneud â'r plentyn

Mewn ymateb i gais o'r fath, mae'r Adran yn ceisio gwybodaeth gan: Wedyn rhoddir y wybodaeth hon gerbron y Panel Cynhwysiad a gadeirir gan y Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac sy'n cynnwys penaethiaid ysgolion yn ôl rota, a'r (Prif Seicolegydd Addysg a Phlant). Pan fo'r Panel Cynhwysiad yn cytuno bod angen cynnal asesiad statudol oherwydd anawsterau'r disgybl y manylwyd arnynt, ceisir cyngor cynhwysfawr gan yr holl bobl a nodir uchod.

Ar ôl i'r wybodaeth gael ei chasglu a'i chrynhoi, mae'r Panel Cynhwysiad yn penderfynu a oes angen gwneud darpariaeth ychwanegol sylweddol er mwyn diwallu anghenion y plentyn.

Pan fo darpariaeth ychwanegol o'r fath yn ofynnol, nodir anghenion y plentyn, ynghyd â'r modd y'u diwellir, yn ei ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Dogfen gyfreithiol yw hon sy'n pennu ac yn manylu ar y ddarpariaeth ychwanegol a gyflwynir. Pan fo Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig yn enwi ysgol benodol, mae'n rhaid derbyn y disgybl i'r ysgol a enwir yn y datganiad.

1.3 Darpariaeth

Y Ddeddf Cydraddoldeb

Rhoddodd Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 well cyfle i rieni plant ag anghenion addysgol arbennig fynegi dewis o ran diwallu anghenion eu plentyn mewn ysgol brif ffrwd.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu Strategaeth Cynhwysiad er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo modd, fod anghenion plant ag anghenion addysgol ychwanegol neu arbennig yn gallu cael eu diwallu mewn ysgolion prif ffrwd. Mae manylion y dull gweithredu hwn i'w gweld yn ei Lawlyfr Cynhwysiad ar gyfer Ysgolion.

Bydd anghenion y mwyafrif o blant sydd â Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig yn cael sylw mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael cymorth ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Mae rhai plant sydd ag anawsterau ychwanegol sylweddol yn cael cymorth ychwanegol oddi wrth staff mewn unedau arbenigol a chanolfannau adnoddau sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd. Yn achos nifer fach iawn o ddisgyblion, mae'n bosibl nad oes gan yr Awdurdod Lleol, ar hyn o bryd, y cyfleusterau a'r adnoddau i gynorthwyo unigolion sydd ag anghenion ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd. Wedyn caiff anghenion y disgyblion hyn eu diwallu yn un o'n dwy ysgol arbennig.

1.4 Gweithio Mewn Partneriaeth

Mae'r Adran Addysg a Phlant yn ceisio gweithio mewn partneriaeth â rhieni disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol neu arbennig.

Gall rhieni gyfrannu i'r bartneriaeth hon drwy: -

- (i) siarad â Phennaeth a Chydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol eu hysgol leol, cymryd rhan yn yr asesiad o anghenion a thrafod yr ymyriadau a thrafod yr ymyriadau a gynllunnir gyda'r gweithwyr proffesiynol;

- (ii) cysylltu â'r Awdurdod
- (iii) cysylltu â'r Gwasanaeth Partneriaeth â Rhieni a ddarperir gan SNAP Cymru drwy ffonio 01554 777566 neu ebostio carm@snapcymru.org

Mae Sir Gaerfyrddin wedi integreiddio'i gwasanaethau Cynhwysiad (Addysg) ac Anabledd (Gofal Cymdeithasol) er mwyn cynnig gwasanaethau gwell i blant a'u teuluoedd. Mae cyfleoedd rheolaidd i rieni gael gwybodaeth, newyddlenni a chyfarfodydd gyda Swyddogion Cynhwysiad i'w galluogi i drafod a chydweithio â'r Adran.

Pan fydd gan blant a phobl ifanc anawsterau dysgu sylweddol ac anghenion cymhleth, mae'n bosibl y byddant hwy a'u teuluoedd yn cael cymorth gan un o weithwyr allweddol y Tim Anableddau Plant er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hasesu, bod gwasanaethau'n cael eu clustnodi a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae hyn yn fodd i sicrhau cysondeb o ran diwallu anghenion cymhleth ym mhob sefydliad.

Sefydliadau Anghenion Addysgol Arbennig

Mae gan Sir Gaerfyrddin amrywiaeth o sefydliadau arbenigol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol ychwanegol a bydd Panel Cynhwysiad y Sir yn cymeradwyo lleoliadau yn y manau hyn. I gael gwybodaeth am y sefydliadau hyn cysylltwch â'r Rheolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhif ffôn: 01267 246451) a fydd yn ymateb i ymholiadau amdanynt .

2. Cludiant Ysgol

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio polisi cyffredinol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol/coleg. Caiff cludiant ei ddarparu yn unol â gofynion statudol y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.

Mae'r polisi hwn yn gywir ar 1af Hydref, 2016. Mae'r polisi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd, a bydd unrhyw newidiadau yn destun ymgynghori.

2.1 Y Polisi Cyffredinol ar Ddarparu Cludiant am Ddim i'r Ysgol

Bydd disgyblion yn gymwys i gael cludiant am ddim os ydynt yn cwrdd â'r **HOLL** feini prawf canlynol:

- yn byw yn Sir Gaerfyrddin (h.y. Treth y Cyngor ar gyfer y cyfeiriad cartref cofrestredig yn cael ei dalu i Sir Gaerfyrddin);
- oedran ysgol gorfodol;
- yn mynychu ysgol ddynodedig yr ALL neu ysgol agosaf (Mae'r ysgol "dynodedig" ar gyfer cyfeiriad cartref cofrestredig y disgybl; mae'r ysgol "agosaf" yn cael ei fesur yn ôl y llwybr byrraf sydd ar gael ac yn cynnwys ysgolion mewn siroedd cyfagos os yw'n berthnasol);
- yn byw dros y 'pellter cerdded statudol' o'r ysgol. (Diffinnir y 'pellter cerdded statudol' fel a ganlyn: 2 filltir (3.218km) ar gyfer ysgolion cynradd a 3 milltir (4.828km) ar gyfer ysgolion uwchradd, a chaiff ei fesur yn ôl y llwybr agosaf sydd ar gael oddi wrth y pwynt agosaf o ble mae cyfeiriad yr ymgeisydd yn cwrdd â'r briffordd gyhoeddus i'r fynedfa agosaf sydd ar gael i'r ysgol. Er y cyfeirir at y pellter fel 'pellter cerdded statudol' nid yw'n awgrymu y disgwylir i'r dysgwr gerdded o reidrwydd, ond yn hytrach y pellter y mae disgwyl i riant/gwarcheidwad wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cludo'r dysgwr, i'r ysgol ac adref, ar eu traul eu hunain.)
- ac mae'n cael ei fesur yn ôl y llwybr agosaf sydd ar gael oddi wrth y pwynt agosaf o ble cyfeiriad yr ymgeisydd yn cwrdd â'r briffordd gyhoeddus i'r fynedfa agosaf sydd ar gael i'r ysgol.

Mae'n **BOSIBL** y caiff cludiant ei ddarparu ar gyfer disgyblion o'r oedran ysgol gorfodol mewn amgylchiadau penodol am y rhesymau canlynol:

- Diogelwch ar y Ffyrdd, lle nad oes llwybr cerdded diogel i'r ysgol. Caiff y llwybr cerdded rhwng cyfeiriad y cartref a'r ysgol ei asesu yn unol â chanllawiau "Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru)" ar Aseiad Risg Llwybrau Cerdded i'r Ysgol.
- Cyflwr meddygol. Gall trefniadau cludiant unigol gael eu gwneud lle mae cyflwr meddygol dysgwr naill ai yn ei rwystro rhag gwneud defnydd o'r cludiant arferol neu lle mae ei gyflwr yn ei rwystro rhag cerdded y 'pellter cerdded' penodedig. **Rhaid i bob cais am gymorth ar sail feddygol gael ei gefnogi gan dystysgrif feddygol**

neu ddatganiad wedi'i lofnodi gan ymarferydd meddygol a rhaid iddo nodi'n glir na all y dysgwr gerdded y 'pellter cerdded' penodedig i'r ysgol. Bydd pob datganiad yn amodol ar gyfnod adolygu a bennir gan y cyflwr ac y cytunwyd gyda'r rhiant pan wnaed y dyfarniad cychwynnol.

- Dysgwyr ag anawsterau dysgu/anableddau - gweler pwynt 4 isod.
- Newid preswylfa yn ystod y blynyddoedd TGAU. Rhoddir cymorth os bydd dysgwr yn newid preswylfa yn ystod eu blynyddoedd TGAU (ar ôl yr Hydref gwyliau hanner tymor o'u blwyddyn gyntaf o astudio TGAU - blwyddyn 10) ar yr amod bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf ar oedran a phellter yn y cartref newydd, a'i fod, cyn newid ei breswylfa yn mynychu'r ysgol agosaf neu ysgol ddynodedig yr ALL.
- Credoau crefyddol. Caiff cludiant ei ddarparu fel arfer os bydd rhieni yn dewis anfon dysgwyr i ysgol wirfoddol a gynorthwyr am resymau crefyddol, ar yr amod fod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf ar oedran ac isafswm pellter teithio, ac nad ydynt yn byw fwy nag 8 milltir o'r ysgol. (Noder - Mae trefniadau ychwanegol ar gyfer Ysgol Sant Ioan Llwyd, Llanelli - gofynnwch i'r Uned Cludiant Teithwyr am wybodaeth.)

Cyfrifoldeb rhieni yw trefnu a thalu am gludo disgyblion i'r ysgol os nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim. Cynghorir rhieni i gysylltu â'r Awdurdod cyn penderfynu ar eu dewis ysgol er mwyn gweld a yw'r disgybl yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim.

Ar sail cyfeiriad cartref y disgybl yn unig y caiff ceisiadau eu hasesu (sef y cyfeiriad a gofrestrwyd gyda'r ysgol a'r ALL) a dim ond o'r cyfeiriad hwnnw y darperir cludiant fel arfer. Mae rhieni yn gyfrifol am roi gwybod i'r Uned Cludiant Teithwyr cyn newid cyfeiriad, er mwyn asesu a yw'r disgybl yn gymwys i gael cludiant am ddim o'r cyfeiriad newydd.

Mae'n ofynnol i awdurdodau wneud darpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n byw mewn mwy nag un cyfeiriad, e.e. trefniadau rhannu gofal. Rhaid i drefniadau o'r fath fod yn barhaol a sefydlog a dim ond ar gyfer y cyfnodau hynny pan fydd dysgwr yn cael addysg a hyfforddiant (nid mewn achosion lle bydd dysgwr yn treulio penwythnos gyda rhiant mewn man gwahanol i'w gyfeiriad yn ystod yr wythnos ysgol). Gellir

cael mwy o gyngor a ffurflenni cais ar gyfer cludiant o ddau gyfeiriad oddi wrth yr Uned Cludiant Teithwyr.

Caiff mwyafrif y disgyblion sydd â hawl i gael cludiant ysgol am ddim eu cludo ar gerbydau sydd wedi'u contractio'n benodol i'r Awdurdod. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gwneir defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus hefyd. Mewn rhai amgylchiadau efallai y rhoddir lwfans milltiroedd ar gyfer rhan o'r daith neu'r daith gyfan (gweler pwynt 3 isod).

Nid yw bob amser yn bosibl trefnu bod llwybrau'r cerbydau yn pasio'n agos at gartrefi'r disgyblion, ac efallai na fydd bob amser yn bosibl trefnu bod disgyblion yn mynd ar y llwybr bws agosaf at eu cyfeiriad cartref. Mae rhieni felly yn gyfrifol am wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer cludo dysgwyr yn ôl ac ymlaen o'r arosfan fysiau ddynodedig. Fel arfer ni fydd hynny ymhellach na 1.5 milltir.

C Darperir cludiant am ddim ar y ddealltwriaeth y bydd y disgyblion yn ymddwyn mewn modd sy'n dangos parch at gyd-ddisgyblion, eiddo a diogelwch pawb. Rhaid i bob un sy'n ymwneud â darparu a defnyddio cludiant ysgol gadw at y '**Côd Ymddygiad ar gyfer Teithio o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg**'. Gellir cael copïau o'r Côd yn www.sirgar.llyw.cymru/CludiantYsgol neu drwy wneud cais i'r Awdurdod.

2.2 Trefniadau Teithio ar Gyfer Dysgwyr Nad Ydynt yn Cael Cludiant Am Ddim

Mae'r Awdurdod yn annog dulliau cynaliadwy o deithio i'r ysgol ac oddi yno. Er enghraifft, bydd yr Awdurdod yn annog dysgwyr i gerdded, beicio neu deithio ar fws yn hytrach nag mewn car preifat lle bo hynny'n bosibl. Diffinnir dulliau cynaliadwy o deithio fel rhai y bydd yr Awdurdod yn ystyried eu bod yn gwella lles corfforol y rhai sy'n eu defnyddio neu les amgylcheddol holl ardal yr Awdurdod Lleol neu ran ohoni.

Ceir gwybodaeth am fysiau lleol a gwasanaethau trên gan Traveline Cymru yn www.TravelineCymru.info neu drwy ffonio **0300 200 22 33**. Mae gwybodaeth a chyngor ar gael hefyd gan y Cyngor Sir yn www.sirgar.llyw.cymru/trafnidiaeth neu drwy ffonio **01267 228 326**. Mae'r Awdurdod yn gweithio gyda darparwyr trafndiaeth gyhoeddus

er mwyn annog darpariaeth addas ar gyfer teithio i'r ysgol ac adref lle bo'n bosibl.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r Awdurdod wedi llwyddo i ddatblygu nifer o lwybrau cludiant cyhoeddus sy'n caniatáu i ddysgwyr sy'n byw o fewn y pellter cerdded statudol i deithio drwy dalu am docyn, yn amodol ar y lle sydd ar gael. Mae'r tâl yn daladwy i'r gyrrwr ar ddechrau pob taith, ac nid oes angen gwneud cais ymlaen llaw.

Mae gan yr Awdurdod hefyd nifer fach o seddau sbâr ar gael ar rai cerbydau contract y gellir eu cynnig dros dro (ar ôl talu tâl gweinyddol) fel consesiwn i ddysgwyr sy'n byw o fewn y pellter cerdded statudol ac sydd heb fedru cael cludiant cyhoeddus, ar yr amod fod y pellter i'r ysgol yn fwy na milltir a bod y dysgwr yn mynychu ysgol ddynodedig yr AALI neu'r ysgol agosaf.

Bydd yr Awdurdod yn penderfynu faint o seddau gwag i'w cynnig ac yn y lle cyntaf bydd disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cael blaenoriaeth. Bydd unrhyw seddau sydd dros ben wedyn ar gael i ddisgyblion eraill. Cynigir pob sedd yn ôl oed gyda'r plant ieuengaf yn cael y flaenoriaeth.

Bydd yr Awdurdod yn tynnu unrhyw gonsesiwn yn ôl os bydd angen drwy roi saith niwrnod o rybudd ysgrifenedig.

Rhaid gwneud cais am seddau gwag erbyn y dyddiad penodedig (fel arfer ddiwedd mis medi) a phenderfynir ar y ceisiadau yn ystod mis Hydref bob blwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y polisi hwn ar gael gan Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod ym Mharc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ, rhif ffôn 01267 228 313.

2.3 Talu Treuliau Teithio

Mewn rhai achosion mae'n bosibl nad oes cludiant cyhoeddus addas neu gerbydau contract ar gael ar gyfer y daith gyfan neu ran ohoni. Yn yr amgylchiadau hyn bydd yr Awdurdod yn cynnig lwfans milltiroedd sefydlog fel y gall rhiant neu warcheidwad gludo'r disgybl i'r ysgol (neu i fan priodol i gwrdd â cherbyd addas os yw'r pellter hwnnw'n fwy na 1.5 milltir). Dim ond os yw'r dysgwr yn gymwys i gael cludiant am ddim yn unol â'r polisi hwn, ac na all yr Awdurdod ddarparu cludiant o'r fath, y telir treuliau teithio.

2.4 Dysgwyr ag Anawsterau Dysgu/Anableddau

Caiff cludiant ei ddarparu yn unol â gofynion Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod neu lle mae disgybl/dysgwr yn destun y weithdrefn asesu statudol lle mae'r ALI o'r farn fod ei anawsterau dysgu yn golygu fod cludiant yn 'angrheidiol'. Bydd asesiadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y math o gludiant a ddarperir ei benderfynu drwy Asesiad Risg.

2.5 Ymholiadau a Cwynion

Mae mwy o wybodaeth am y polisi hwn ar gael gan Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod ym Mharc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ, rhif ffôn 01267 228 313.

Dylai cwynion gweithredol mewn perthynas â'r gwasanaeth cludiant o'r cartref i'r ysgol gael eu gwneud i Dîm Rhwydwaith yr Uned Cludiant Teithwyr ym Mharc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin SA31 1HQ, rhif ffôn 01267 228 326.

Caiff rhieni sydd wedi cyflwyno cais am gludiant am ddim ac wedi cael eu gwrthod ofyn am adolygiad o'r penderfyniad, a byddant yn cael gwybod am y broses adolygu gyda'r hysbysiad ysgrifenedig yn gwrthod y cais.

2.6 Sut i wneud Cais am Gludiant am Ddim i'r Ysgol

Rhaid i'r holl ddysgwyr sy'n gymwys i gael cludiant am ddim wneud cais ysgrifenedig i'r Awdurdod gan ddefnyddio'r ffurflen gais a gyhoeddwyd. Gall Ceisiadau cael eu gwneud ar-lein ar www.sirgar.llyw.cymru/CludiantYsgol

Rhaid gwneud ceisiadau am gludiant o leiaf 15 diwrnod cyn y dyddiad cyntaf y mae angen y cludiant, neu erbyn 1af Mehefin lle mae angen y cludiant ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

Os caiff y cais ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod yn anfon Tocyn Teithio atoch. Gyda'r Tocyn Teithio rhoddir manylion am y llwybr bws i'w ddefnyddio, ynghyd â chopi o'r 'Côd Ymddygiad' y mae'n rhaid cadw ato bob amser. Bydd y Tocyn Teithio fel arfer yn cael ei gyhoeddi cyn pen 15 diwrnod ar ôl gwneud cais, er y bydd yr amserlen hon yn cael ei hymestyn yn achos ceisiadau a wnaed rhwng mis Mehefin a mis Medi,

ac ni fyddant yn gymwys i ddysgwyr sy'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd (gweler isod).

Rhaid i ddysgwyr sy'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd i Ysgol Uwchradd gyflwyno ffurflen gais trafndiaeth briodol erbyn y 16eg o fis Rhagfyr. Bydd y ceisiadau'n cael eu gwirio i gadarnhau fod y dysgwr yn mynychu'r ysgol agosaf neu ysgol benodedig y dalgylch. Os caiff hynny ei gadarnhau caiff y cais ei asesu wedyn gan yr Uned Cludiant Teithwyr i benderfynu ar yr hawl i gludiant am ddim. Bydd yr Uned Cludiant Teithwyr yn cadarnhau neu'n gwrthod y cais am gludiant am ddim erbyn mis Mehefin, a chaiff Tocynnau Teithio eu hanfon at ddysgwyr cymwys yn ystod mis Awst.

Os collir y Tocyn Teithio neu os caiff ei ddifrodi rhaid cysylltu â'r Awdurdod ar 01267 234 567 ar unwaith er mwyn gwneud trefniadau dros dro ar gyfer teithio (lle bo modd) ac i archebu tocyn newydd. Codir tâl am Docynnau Teithio newydd.

2.7 Amodau Defnyddio Tocynnau Teithio

Rhaid dangos y Tocyn Teithio i yrrwr y bus ar ddechrau pob siwrnai. Mae'n bosibl y gwrthodir cludo'r disgybl oni ddangosir y tocyn. Nid oes modd trosglwyddo'r Tocyn Teithio, oherwydd nid yw'n ddilys ond ar gyfer y person a enwir ar y tocyn a'r siwrnai a ddangosir arno. Mae camdefnyddio Tocyn Teithio neu ei ddefnyddio'n dwyllodrus yn cael ei drin yn ddifrifol, a gallai olygu fod y dysgwr yn cael ei ddisgyblu o dan weithdrefn ddisgyblu yr ysgol/coleg yn ogystal â cholli ei hawl i deithio.

Os bydd unrhyw fanylion yn newid ers y cais gwreiddiol, rhaid cysylltu ag Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod ar unwaith, er mwyn iddynt newid y manylion ac ailasesu a yw'r dysgwr bellach yn gymwys i gael cludiant. Os oes angen Tocyn Teithio newydd oherwydd y newid, rhaid dychwelyd y tocyn presennol gyda'r cais.

Os nad ydych angen y Tocyn Teithio mwyach, anfonwch ef yn ôl i Uned Cludiant Teithwyr yr Awdurdod oherwydd gall fod eraill yn awyddus i ddefnyddio'r sedd.

2.8 Cludiant i Ddysgwyr Dros Oedran Ysgol Orfodol

Ar hyn o bryd mae gan yr Awdurdod bolisi dewisol i ddarparu cludiant

am ddim i ddysgwyr dros oedran ysgol orfodol ac o dan 19 oed (neu'r rhai sydd wedi cyrraedd 19 oed ond dechreuodd ar gwrs pan o dan 19 oed ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw) os ydynt yn mynychu'r ysgol agosaf neu'r ysgol ddynodedig yr ALL, neu y campws coleg agosaf, ac yn byw dros y pellter cerdded statudol o 3 milltir.

Noder na fydd y ddarpariaeth preswiliad deul yn cael ei wneud ar gyfer dysgwyr dros oedran ysgol orfodol oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru gymorth ariannol ar gael i dalu / gyfrannu at gostau cludiant o'r rhai mewn addysg ôl-16. Cyflwynwyd y Lwfans Cynhaliath Addysg (EMA) fel cymhelliad ariannol ar gyfer pobl ifanc o gartrefi incwm isel i aros mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser y tu hwnt i i gyfnod addysg orfodol. Mae ar gael i ddysgwyr sy'n mynychu ysgol neu goleg. Mae Grant Dysgu'r Cynulliad (ALG) ar gael i ddysgwyr 19 oed neu'n hŷn sydd mewn Addysg Bellach. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cefnogaeth i'r myfyrwyr hynny sy'n wynebu caledi drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF) a ddosberthir i sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru.

3. Prydau Ysgol & Grant Gwisg Ysgol

Trosolwg

Mae Gwasanaeth Prydau Ysgol Sir Gaerfyrddin yn cynnig dewis o brydau maethlon cytbwys a gwerth yr arian i bob ysgol yn y sir. Mae prydau ysgol yn bwysig o ran dysgu sgiliau cymdeithasol i blant a chyflwyno dewisiadau bwyd gwahanol ac amrywiol.

Cynigir brechwast am ddim i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd a chânt ddewis o bryd dau gwrs bob dydd, ac mae gan ddisgyblion ysgolion uwchradd ffreuturau sy'n cynnig dewis o brydau, byrbrydau, ffrwythau a phwdinau i ddisgyblion, sydd ar gael amser cinio ac yn yr egwyl canol bore.

Os oes gan eich plentyn anghenion dietegol arbennig dylech roi gwybod i'r ysgol a'r staff arlwygo ac fe wnaiff y gwasanaeth ei orau i ddarparu ar gyfer y gofynion hynny. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cyfleusterau ar gyfer cynnig dŵr yfed i ddisgyblion adeg prydau bwyd.

3.1 Brecwast am ddim

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru rydym wedi cyflwyno menter brecwast rhad ac am ddim mewn 97 o'n hysgolion cynradd (ym mis Medi 2016).

Mae Sesiwnau Brecwast am ddim ar agor cyn yr ysgol ac yn darparu brecwast i ddisgyblion, sy'n cynnwys amryw o eitemau fel:

Dewis o rawnfwydydd heb eu gorchuddio â siwgr, tost, sudd ffrwythau, ffrwythau a llaeth. Mae brecwast wedi hen gael ei gydnabod yn bryd pwysicaf y dydd, ac mae'r dystiolaeth yn ddangos bod yna cysylltiad rhwng brecwast iach a gwell iechyd, gwell canolbwytio, a gwell ymddiadiad yn ein hysgolion.

3.2 Bwydlenni Prydau Ysgol

Mae ein bwydlenni yn cael eu cynllunio'n ofalus i fodloni Canllawiau Maeth Cymru a'n nod yw sicrhau y gellir darparu pryd iach a maethlon ar gyfer yr holl ddisgyblion, ac y darperir ar gyfer llysiuwyd a'r disgyblion hynny sy'n dilyn diet arbennig hefyd.

Mae pryd dau gwrs mewn ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin yn costio **£2.40 (Ebrill 2016)**. Mae ein holl ysgolion uwchradd yn gweithredu system ffreutur arian parod; gwerth y tocyn pryd ysgol am ddim yn ein hysgolion uwchradd yw **£2.40 (Ebrill 2016)**. **Mae'n rhaid talu am bob pryd ymlaen llaw.**

Os oes arnoch angen copi o'n bwydlen bresennol, cysylltwch â'r Tîm Arlwyd drwy ffonio 01267 246484.

3.3 Prydau Ysgol Am Ddim

Dim ond plant y mae eu rhieni neu warcheidwaid yn cael un o'r budd-daliadau canlynol sy'n gallu cael prydau ysgol am ddim:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith (ar sail incwm)
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999, yr elfen warant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Treth Plant, ond HEB dderbyn Credyd Treth Gwaith ac nad yw eu hincwm (a aseswyd gan Gyllid y Wlad) yn fwy nag £16,190 oni bai bod y Credyd Treth Gwaith yn rhan o estyniad pedair wythnos.

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Credyd Cynhwysol

Sylwch: Mae gan blant sy'n derbyn un o'r budd-daliadau eu hunain hefyd hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim.

Sut y gallaf wneud cais am Brydau Ysgol am Ddim?

Gallwch wneud cais am brydau ysgol am ddim mewn ychydig funudau ar-lein ar ein gwefan: www.sirgar.llyw.cymru

Beth yw'r cam nesaf?

Pan fyddwn yn derbyn eich cais ar-lein byddwn yn anelu i brosesu eich cais cyn pen 5 niwrnod gwaith. Cewch wybod am y dyfarniad drwy neges e-bost neu drwy lythyr.

Adnewyddu Ceisiadau

Os ydych eisoed yn hawlio prydau ysgol am ddim i'ch plentyn, nid oes angen ailgyflwyno cais bob blwyddyn ysgol newydd. Bydd yr hawl hon yn dilyn eich plentyn yn awtomatig i gyfnod nesaf ei addysg (e.e. ym mis Medi). Os yw hynny'n golygu symud i ysgol newydd (e.e. symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd), bydd yr ysgol newydd yn cael gwybod am eich hawl, heb i chi orfod ailgyflwyno cais).

Os bydd eich plentyn yn trosglwyddo i ysgol arall yn Sir Gaerfyrddin ar unrhyw adeg arall neu am unrhyw reswm arall, eto bydd yr hawl yn dilyn eich plentyn yn awtomatig. Gofynnir i chi roi gwybod i ni am unrhyw newid ysgol.

Beth os bydd fy amgylchiadau'n newid?

Dylech roi gwybod i'r Swyddfa Prydau Ysgol am Ddim os:

- Ydych yn dechrau gweithio
- Yw eich budd-dal yn newid
- Ydych yn newid eich cyfeiriad
- Oes gennych blentyn arall yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf
- Nad yw'r plentyn yn byw gyda chi bellach

Gall methu â rhoi gwybod inni am unrhyw newidiadau i'ch budd-dal/incwm olygu bod yn rhaid i chi dalu am unrhyw brydau a gafwyd pan nad oeddech yn gymwys.

Manylion cyswllt: Adran Prydiau Ysgol am ddim, Yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Fynnon Job, Caerfyrddin SA31 3HB

3.4 Darparu Llaeth

Mae dau gynllun ar waith gan yr Awdurdod er mwyn darparu llaeth am ddim i blant, sef y cynllun dan bump a weinyddir yn unol â'r Uned Ad-daliadau Llaeth Genedlaethol (MNRU) a chynllun Cyfnod Allweddol 1 a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2001. Mae'r ddau gynllun yn derbyn cymhorthdal o dan Gynllun y Gymuned Ewropeaidd i ddsbarthu Llaeth mewn Ysgolion.

Mae plant unigol dros 5 oed hefyd yn medru derbyn llaeth am ddim am resymau meddygol a phan fônt yn mynychu ysgolion neu unedau arbennig. Caniateir i ysgolion wneud eu trefniadau lleol eu hunain os ydynt yn dymuno cyflwyno cynlluniau llaeth sy'n talu amdanynt eu hunain.

Grant Gwisg Ysgol Llywodraeth Cymru

Y Cynllun Grant

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun sy'n cynnig cymorth ariannol i rieni penodol sy'n derbyn incwm isel i'w helpu i brynu gwisg ysgol i'w plant pan fyddant yn symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (yr Awdurdod Lleol) yn gweinyddu'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru.

Rhoddir y grant i helpu i brynu eitemau sy'n addas i'w gwisgo'n wisg ysgol yn ôl corff llywodraethu yr ysgol berthnasol. Cyfrifoldeb y rhiant yw cael gwybod pa ddillad sy'n dderbyniol i'r ysgol.

Pwy sy'n Gymwys ar gyfer y Grant

Mae disgyblion sy'n symud i Flwyddyn 7 mewn ysgol a gynhelir yn Sir Gaerfyrddin ac sy'n gymwys ar hyn o bryd i gael prydau ysgol am ddim, yn gymwys i dderbyn y grant. Pan fydd disgyblion yn symud i ysgol a gynhelir gan awdurdod gwahanol, bydd angen gwneud cais i'r awdurdod sy'n cynnal yr ysgol uwchradd honno.

Yn unol â hynny, bydd plant mewn teuluoedd sy'n derbyn un o'r budd-daliadau canlynol ar hyn o bryd yn gymwys:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith (ar sail incwm)
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Yr elfen warant o Gredyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Treth Plant YN UNIG, ac incwm blynyddol y cartref (a aseswyd gan Gyllid y Wlad) heb fod yn fwy nag £16,190 (6 Ebrill, 2013)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm).
- Credyd Cynhwysol

Dyddiadau ar gyfer Derbyn Ceisiadau

Penderfynir a yw'r disgybl dan sylw yn gymwys adeg prosesu'r cais. Gall teuluoedd wneud cais am y grant i awdurdodau lleol o 1 Gorffennaf 2017 ar gyfer blwyddyn ysgol 2017/2018.

Mae amodau'r grant yn cynnwys dyddiad darfod, sef 31 Hydref, i Awdurdodau Lleol dderbyn ceisiadau ond yn caniatáu i'r Awdurdodau Lleol ddewis derbyn ceisiadau hyd at 31 Ionawr 2017 gan deuluoedd disgyblion cymwys sy'n symud i Gymru neu gan deuluoedd disgyblion perthnasol sydd wedi dod yn gymwys yn ddiweddar i dderbyn cinio ysgol am ddim.

Swm y Grant

Y grant ar gyfer pob disgybl cymwys ym Medi 2016 yw £105.

Y Dull o Dalu

Bydd y taliad ar ffurf sic. Mae nifer o siopau ledled y Sir wedi cytuno i dderbyn y sieciau hyn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi'r taliadau grant cyn diwedd gwyliau'r haf i alluogi teuluoedd i brynu gwisg ysgol cyn dechrau'r flwyddyn ysgol newydd ym mis Medi.

Manylion Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth a ffurflen gais, cysylltwch â'r canlynol:

Yr Adain Grantiau Gwisg Ysgol, Yr Is-adran Datblygu Strategol, Yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3HB, Ffôn: **01267 246521**

4. Lwfans Cynhaliaeth Addysg

Mae'r lwfansau hyn ar gael i fyfyrwyr sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol sy'n dewis aros ymlaen yn yr ysgol. Mae gwybodaeth lawn am y lwfansau a'r grantiau hyn, a sut i gyflwyno cais amdanynt ar gael yn yr ysgol.

5. Y Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLIA) yn gweithio ar ran yr Awdurdod Lleol i gefnogi presenoldeb cyson mewn ysgolion. Mae staff yn hyrwyddo ymgysylltu â theuluoedd ac yn defnyddio ymagwedd Tim o Amgylch y Teulu (TAF) i alluogi teuluoedd i oresgyn rhwystrau sy'n atal presenoldeb cyson. Mae gan y Gwasanaeth Lles Addysg gyfrifoldeb dirprwyedig i fonitro perfformiad plant; cyflogaeth plant; a hyfforddi gwarchodwyr ar draws yr awdurdod. Mae'r GLIA hefyd yn gweithredu ar ran yr Awdurdod Lleol o ran gorfodi dyletswydd rhiant i ddarparu addysg briodol o dan Deddf Addysg (1996) (2002). Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, gwasanaethau plant, teuluoedd a phartneriaid ehangach.

6. Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Mae'r ALL yn gweinyddu nifer o gronfeydd ymddiriedolaeth elusennol sy'n gallu cynnig cymorth o ran costau prynu dillad ysgol a chyfarpar, ac yn fwyaf arbennig, dreuliau'r rheiny sy'n mynychu cyrsiau addysg bellach neu addysg uwch. Yn bennaf, mae pob un o'r cronfeydd ymddiriedolaeth hyn wedi'u sefydlu er budd plant sydd wedi mynychu ysgol neu ysgolion penodol yn y Sir - er dylid nodi bod rhai ohonynt yn cynnig cymorth ariannol i gefnogi myfyrwyr o unrhyw ran o'r Sir. Dylid gofyn am fanylion pellach am gymorth ariannol o gronfeydd ymddiriedolaeth oddi wrth bennaeth yr ysgol neu fynd i'n gwefan: www.sirgar.llyw.cymru/cartref/preswylwyr/addysg-ac-ysgolion/cymorth-ariannol/cyllid-myfyrwyr/

7. Y Gwasanaeth Gyrfaoedd

Nod Gyrfya Cymru yw helpu pobl ifainc wneud y penderfyniadau anodd hynny am eu dyfodol. Mae gan y gwasanaeth y wybodaeth arbenigol ddiweddaraf am addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, ac fel arfer, bydd Cynghorwyr Gyrfaoedd yn gweld plant yn yr ysgol o Flwyddyn 9 yn yr ysgol uwchradd ymlaen, i'w helpu i gynllunio eu dyfodol drwy:-

- rhoi cyngor am ba bynciau i'w hastudio, ac arwyddocâd eu dewis;
- cynnig cymorth wrth benderfynu ar yrfa;
- rhoi cymorth iddynt lunio cynllun gweithredu ar gyfer eu gyrfya;
- rhoi gwybodaeth am swyddi, gyrfaoedd, addysg bellach, addysg uwch a'r nifer fawr o gyrsiau hyfforddiant sydd ar gael
- rhoi gwybod iddynt am swyddi gwag, cyfleoedd hyfforddiant, a chyrsgiau coleg, gofynion a cheisiadau mynediad;
- rhoi cymorth arbenigol i'r rhai hynny sydd ag anabledd, a hyrwyddo cyfle cyfartal, beth bynnag yw'r amgylchiadau

Mae Gyrfya Cymru yn ceisio sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn ymwybodol o'r holl wasanaethau a gynigir ac mae'n annog rhieni i gyfranogi ym mhob rhan o'r rhaglen arweiniad gyrfaol. Er mwyn sicrhau cyfranogiad rhieni mae Gyrfya Cymru yn cynnig gwasanaeth hyblyg sy'n ymateb i anghenion rhieni o safbwynt amser, lleoedd a chyd-destun ac sy'n cynnwys trafodaethau unigol â rhieni yn yr ysgol, mewn canolfannau gyrfaoedd neu mewn cyfarfodydd rhieni a digwyddiadau gyrfaoedd.

Gellir cysylltu â Chynghorwyr Gyrfaoedd drwy'r ysgol neu yn y Ganolfan Gyrfaoedd leol, rhif ffôn:- **0800 028 4844**.

8. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu gwybodaeth dwyieithog, diduedd a di-dâl ynghylch amrywiaeth eang o ddewisiadau gofal plant, gweithgareddau i blant a materion yn ymwneud â chymorth i deuluoedd. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch talu am ofal plant a gweithio yn y diwydiant gofal plant, gwybodaeth am feithrinfeydd, gwarchodwyr plant, clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, cylchoedd chwarae a grwpiau rhieni a phlant bach. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar gael i rieni, gofalwyr, cyflogwyr a gweithwyr proffesiynol yn Sir Gaerfyrddin.

Cysylltwch â'r gwasanaeth i gael gwybodaeth am y canlynol:

- argaeledd a chyfleusterau gofal plant
- datblygiad ac ymddygiad plant
- gwasanaethau addysg a dysgu fel teulu
- gwasanaethau ariannol a chyfreithiol
- gwasanaethau iechyd a lles
- grwpiau cymorth i rieni a theuluoedd
- cyfleusterau chwarae a chwaraeon a chyfleusterau hamdden eraill
- bod yn ddiogel
- gwasanaethau lleol a chenedlaethol i blant ac oedolion ag anableddau... a llawer, llawer mwy.

Yn ogystal â'ch helpu'n uniongyrchol, gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol eich cyfeirio at asiantaethau a sefydliadau eraill hefyd.

Gallwch gysylltu â'r gwasanaeth fel a ganlyn:

Rhif Ffôn: **(01267) 246 555**

Cyfeiriad e-bost: **gwybplant@sirgar.gov.uk**

Gwefan: **www.fis.carmarthenshire.gov.uk/cym**

Gwasanaeth negeseuon testun y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: Nodwch 'Plant' ar ddechrau eich neges a'i hanfon at **07786 202747**

9. Y Cynllun Ysgolion Iach

Mae Cynllun Ysgolion Iach wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus ers mis Medi 2001 â phob ysgol gynradd, uwchradd a sefydliadau anghenion ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin bellach yn rhan o'r fenter.

Mae 'Ysgol Iach' yn un sy'n cymryd cyfrifoldeb am gynnal a hyrwyddo iechyd pawb sy'n 'dysgu, gweithio, chwarae a byw' fel rhan o'r ysgol, gan ymgorffori'r saith pwnc iechyd i mewn i bob agwedd a phrofiad dysgu'r disgyblion.

Y Saith Pwnc Destun

- Bwyd a Ffitrwydd
- Iechyd a Lles Meddyliol ac Emosiynol
- Datblygiad Personol a Pherthnasoedd
- Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau
- Yr Amgylchedd
- Diogelwch
- Hylendid

Mae'r fenter yn cefnogi Cwricwlwm newydd Cymru mewn perthynas â phlant a phobl ifanc iach ac mae'n cefnogi'r Fframwaith Addysg Personol a Chymdeithasol yn sylweddol. Rhaid i ysgolion symud ymlaen drwy pump cam yn y cynllun a hyn gan ystyried pedair agwedd sef, Arweinyddiaeth a Chyfathrebu, y Cwricwlwm, Ethos ac Amgylchedd a Theuluoedd a Chyfraniad Cymunedol.

Ar ôl cwblhau cam mae'r ysgolion yn derbyn gwobr ar ffurf plac. Gwobr Ansawdd Genedlaethol yw'r wobwr uchaf yn y cynllun ac, ar hyn o bryd, mae 19 o ysgolion Sir Gaerfyrddin yn gweithio tuag at GAG.

Am fwy o wybodaeth ar y Cynllun Ysgolion Iach cysylltwch â Catrin Rees neu Angharad Vaughan-Owen, cyd-gysylltwyr Ysgolion Iach ar **(01267) 246622**.

10. Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang a Rhaglen Gwobrau Eco-ysgolion

Mae Gwobrau Eco-ysgolion yn fenter ryngwladol a weinyddir gan Gadwch Gymru'n Daclus ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor Sir i helpu ysgolion Sir Gaerfyrddin i ddod yn fwy blaenweithgar ac i ennyn diddordeb y disgyblion mewn materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Mae i'r rhaglen strwythur pendant iawn ar gyfer rheolaeth amgylcheddol ysgolion.

Mae'r rhaglen yn adnodd dysgu ac mae'n ymdrin â'r pynciau canlynol: Sbwriel, Lleihau Gwastraff, Trafnidiaeth, Byw'n Iach, Ynni, Dŵr, Tiroedd Ysgolion a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae'r disgyblion yn ymgymryd â rolau allweddol o ran gwneud penderfyniadau a chyfranogi er mwyn lleihau effaith eu hysgol ar yr amgylchedd. Yn y modd hwn, mae rhaglen Eco-ysgolion yn ymestyn y dysgu'r tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac mae'n datblygu agweddau cyfrifol tuag at ddinasyddiaeth a hynny gartref ac yn y gymuned yn gyffredinol.

Mae'r rhaglen yn cynnwys yr ysgol gyfan – y disgyblion, yr athrawon, y staff eraill, a'r llywodraethwyr, ynghyd ag aelodau o'r gymuned leol (y rhieni, yr awdurdod lleol, y cyfryngau a busnesau lleol).

Hefyd mae'r rhaglen yn gysylltiedig â chynllun Ysgolion Iach a chynllun Ysgolion Masnach Deg a gydnabyddir ac a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

Mae holl ysgolion Sir Gaerfyrddin wedi cofrestru ar raglen Eco-ysgolion ac mae mwy na 383 o Faneri Gwyrdd wedi'u dyfarnu i ysgolion uwchradd a chynradd, ysgolion babanod, ysgolion plant iau, ysgolion ffederal ac ysgolion arbennig. Mae 34 o ysgolion wedi derbyn Gwobr Blatinwm Eco-ysgolion. Rhoddir y wobwr hon pan fydd ysgolion wedi ennill Pedair Baner Werdd Eco-ysgolion. I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r mentrau uchod, ewch i'r gwefannau canlynol:

www.eco-schoolswales.org

www.wales.gov.uk

www.fairtradewales.com

ADRAN CH – Crynodeb o Ddisgyblion ac Ysgolion Sir Gaerfyrddin


| | |
|-------------------|------------|
| Ysgolion Meithrin | 1 |
| Ysgolion Babanod | 1 |
| Ysgolion Iau | 1 |
| Ysgolion Cynradd | 96 |
| Ysgolion Arbennig | 2 |
| Ysgolion Uwchradd | 12 |
| CYFANSWM: | 113 |

CYFANSWM Y DISGYBLION (Ionawr 2016)

| | |
|-------------------|--------|
| Ysgolion Cynradd | 15,873 |
| Ysgolion Uwchradd | 11,119 |

Gellir cael rhagor o wybodaeth am ysgolion unigol a gweld eu gwefannau trwy ddilyn y ddolen gyswllt ganlynol:
www.amdro.org.uk/cymraeg/SafleoeddYsgolion/Pages/default.aspx
– Nodir y manylion cyswllt ynghanol y llyfryn hwn.

Adran D - Ysgolion Sir Gaerfyrddin



Ysgolion Cynradd Cymunedol

- | | | | |
|------------------|--------------------|--------------------|---------------------|
| 2. Meithrin | 14. Brynsierfel | 29. Pump-heol / | Johnstown |
| Rhydaman / | 15. Brynteg | Five Roads | 41. Llandeilo |
| Ammanford | 16. Burry Port | 30. Ffwrnes | 42. Llandybie |
| Nursery | 17. Bynea | 31. Gors-las | 43. Llanedi |
| 3. Bancffosfelen | 18. Cae'r Felin | 32. Griffith Jones | 44. Llangadog |
| 4. Bancyfelin | 19. Carreg Hirfaen | 33. Gwenllian | 45. Llan-gain |
| 5. Beca | 20. Carwe | 34. Gwynfryn | 46. Llangennech (J) |
| 6. Betws | 21. Cefneithin | 35. Gymraeg | 47. Llangennech (I) |
| 7. Bigyn | 22. Cross Hands | Rhydaman | 48. Llangynnwr |
| 8. Blaenau | 23. Cwrt-henri | 36. Hafodwenog | 49. Llanmiloe |
| 9. Bro Banw | 24. Cynwyl Elfed | 37. Halfway | 50. Llannon |
| 10. Bro Brynach | 25. Dafen | 38. Hendy | 51. Llanpumsaint |
| 11. Bryn | 26. Dewi Sant | 39. Heol Hen / Old | 52. Llansteffan |
| 12. Brynaman | 27. Dre-fach | Road | 53. Llanybydder |
| 13. Brynsaron | 28. Ffair-fach | 40. Tre-ioan / | 54. Llechyfedach |

Ysgolion Cynradd Cymunedol

| | | | |
|------------------|-------------------|-------------------|---------------|
| 55. Llys Hywel | Pembrey | / Richmond Park | 81. Tŷ -croes |
| 56. Maes-y-bont | 65. Peniel | 74. Rhys Prichard | 82. Tymbl |
| 57. Meidrim | 66. Penrhos | (Llanymddyfri) | 83. Y Bedol |
| 58. Maes y Morfa | 67. Pen-y-gaer | 75. Saron | 84. Y Castell |
| 59. Mynyddgarreg | 68. Pen-y-groes | 76. Stebonheath | 85. Y Dderwen |
| 60. Myrddin | 69. Pont-henri | 77. Swiss Valley | 86. Y Ddwylan |
| 61. Nantgaredig | 70. Pont-iets | 78. Talylychau / | 87. Y Felin |
| 62. Parc-yr-hun | 71. Pontyberem | Talley | 88. Y Fro |
| 63. Parc y Tywyn | 72. Pwll | 79. Teilo Sant | |
| 64. Pen-bre / | 73. Parc Waun-dew | 80. Trimsaran | |

Ysgolion Cynradd Gwirfoddol Rheoledig

| | | |
|---------------------------|------------------------|---------------|
| 89. Abergwili | 91. Lacharn /Laugharne | 93. Llanllwni |
| 90. Glanyfferi /Ferryside | 92. Llanddarog | 94. Tremoilet |

Ysgolion Cynradd Gwirfoddol Cymorthedig

| | |
|-------------|----------------------------|
| 95. Model | 98. St. Mary's, Llanelli |
| 96. Penboyr | 99. St. Mary's, Carmarthen |
| 97. Pentip | |

Ysgolion Uwchradd

| | | | |
|------------------|-------------------|------------------|-------------|
| 100. Bro Dinefwr | 104. Dyffryn Aman | 108. Maes y | 110. Strade |
| 101. Bro Myrddin | 105. Dyffryn Taf | Gwendraeth | |
| 102. Bryngwyn | 106. Emlyn | 109. Y Frenhines | |
| 103. Coedcae | 107. Glanymôr | Elisabeth | |

Ysgol Uwchradd Gymorthedig

111. St. Ioan Llwyd

Ysgolion Arbennig

| | |
|-----------------|------------------|
| 112. Heol Goffa | 113. Rhyd-y-gors |
|-----------------|------------------|